# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL (CYFARFOD CYLLIDEB) | | CORPORTAE SCRUTINY COMMITTEE (BUDGET MEETING) |
| DYDD MAWRTH, 31 HYDREF 2017 am 10:00 y bore | | TUESDAY, 31 OCTOBER, 2017 at 10:00 a.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Trefor Lloyd Hughes, MBE, *Sedd Wag/Vacant Seat*, Dylan Rees *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Alun Roberts, Nicola Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Richard Griffiths, Richard O. Jones

**PLAID LAFUR CYMRU/ WALES LABOUR PARTY**

J. Arwel Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)*(Cadeirydd/Chair)*
Shaun Redmond

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) / CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Mrs Anest G. Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales).

# R H A G L E N

1 **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **<u>COFNODION CYFARFOD 4 MEDI, 2017</u>** (Tudalennau 1 - 24)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –

**4ydd Medi, 2017**

Yn codi –

**Eitem 7: Adroddiad Blynyddol 2016/17 – Gwrando ar Gwynion a Dysgu Ohonynt**

Cyflwyno diweddariad ar lafar ar ymarferoldeb monitro trosiant gweithwyr cymdeithasol plant sy'n derbyn gofal.

**2ail Hydref, 2017 (arbennig)**

3 **<u>CYNLLUN YMGYNGHORI AR Y GYLLIDEB 2018/19</u>** (Tudalennau 25 - 30)

Cyflwyno adroddiad Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol.

4 **<u>PANEL SGRIWTINI CYLLID</u>** (Tudalennau 31 - 52)

Cyflwyno adroddiad y Panel Sgriwtini Cyllid.

5 **<u>GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD</u>** (Tudalennau 53 - 56)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"O dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A i'r Ddeddf honno ac yn Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig."

6 **<u>CYLLIDEB 2018/19 - Y BROSES HYD YMA</u>** (Tudalennau 57 - 80)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog 151.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Medi, 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled M. Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Trefor Lloyd Hughes, MBE Alun Roberts, J. Arwel Roberts, Nicola Roberts, Shaun Redmond. |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes / Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant Dros Dro<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (ar gyfer eitem 3)<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (ar gyfer eitem 3)<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 3)<br>Rheolwr Gwasanaethau Technegol Tai (DR) (ar gyfer eitem 3)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Carwyn Jones, Richard O. Jones, Mr Keith Roberts (Aelod Cyfetholedig) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol), y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol), y Cynghorydd John Griffith (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid), Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau), Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. |

---

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r holl Aelodau a Swyddogion oedd yn bresennol yn y cyfarfod ac yn arbennig i'r Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes, MBE wedi cyfnod o salwch.

Llongyfarchwyd Mrs Anwen Davies gan y Cadeirydd ar ei phenodiad fel Rheolwr Sgriwtini.

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 10 EBRILL, 2017**

DRAFT

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau a nodir isod a chadarnhawyd eu bod yn gywir -

- 26 Mehefin, 2017
- 11 Gorffennaf 2017 (cyfarfod arbennig)

**3 MONITRO PERFFORMIAD – CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH4 2016/17**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Trawsnewid ynghyd â'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol a oedd yn portreadu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol ar ddiwedd Chwarter 1 2017/18 mewn perthynas â Rheoli Perfformiad, Rheoli Pobl, Rheolaeth Ariannol a Gwasanaethau Cwsmer.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol fod y cerdyn sgorio yn Atodiad A yn adlewyrchu darlun calonogol ar hyn o bryd, gyda'r mwyafrif o ddangosyddion yn perfformio'n dda yn erbyn targedau ac eithrio 3 dangosydd yn y Gwasanaeth Oedolion, y Gwasanaeth Plant a'r Gwasanaeth Tai sy'n dangos yn Ambr neu'n Goch yn erbyn eu targedau blynyddol ar gyfer y flwyddyn. Darperir manylion am y rhain ym mharagraffau 2.3.3. i 2.3.5 yr adroddiad, ynghyd â'r mesurau lliniaru a gynigir i wella perfformiad ym mhob un o'r tri maes. O ran Rheoli Pobl, mae perfformiad y Cyngor mewn perthynas â chyfraddau absenoldeb salwch ar ddiwedd Chwarter 1, sef 2.23, yn welliant pellach o gymharu â'r ffigwr o 2.69 am yr un cyfnod ar gyfer 2016/17. Mae trefniadau rheoli absenoldeb salwch yn gysylltiedig â chyfraddau salwch, gan gynnwys cydymffurfio â pholisïau salwch corfforaethol. Er bod y ffigyrau ar gyfer cynnal Cyfarfodydd Adolygu Presenoldeb (CAP) wedi gwella'n sylweddol, sef 78% o gymharu â 57% yn Chwarter 4 2016/17, mae canran y cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith (CDG) a gynhaliwyd o fewn yr amserlen – 67% - wedi gostwng yn sylweddol is na'r targed o 80% ac mae bellach yn dangos yn Goch. Mae cyfanswm nifer y cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith a gynhaliwyd yn isel hefyd, sef 85% o gymharu â tharged o 95%.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) at ddangosydd SCC / 025 -% yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn unol â rheoliadau – a oedd yn un o'r tri dangosydd a oedd yn tanberfformio; dywedodd wrth y Pwyllgor fod y perfformiad sy'n gysylltiedig â'r dangosydd hwn wedi'i ddadansoddi'n ofalus a darganfuwyd ei fod wedi cael ei gyfrifo'n anghywir. Er enghraifft, nodwyd mai 72% oedd y ffigwr perfformiad gwreiddiol ar gyfer Awst 2017 ond, ar ôl ei adolygu, gwelwyd mai'r ffigwr cywir oedd 86%. Felly, mae'r sefyllfa'n llai siomedig nag ar yr olwg gyntaf. Mae'r gwasanaeth hefyd yn awyddus i adolygu'r ganran a nodwyd ar gyfer Chwarter 1, sef 59.93%, sy'n anarferol o isel, a hynny er mwyn darganfod a yw wedi'i gyfrifo'n gywir ac i gael gwared ar unrhyw gamargraff a allai fod wedi'i greu o ganlyniad.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r wybodaeth a gyflwynwyd mewn perthynas â pherfformiad ar ddiwedd Chwarter 1 ym mlwyddyn ariannol 2017/18 a gwnaeth y pwyntiau canlynol -

- Nododd y Pwyllgor fod un dangosydd newydd yn y Gwasanaeth Tai – PAM / 015: y nifer o ddyddiau calendr a gymerir ar gyfartaledd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl (GCA) yn dangos yn Goch ar y cerdyn sgorio ar gyfer Ch1, sef 221.7 diwrnod yn erbyn targed o 200. Gofynnodd y Pwyllgor am esboniad am y tanberfformiad; gofynnodd a oedd y targed o 200 diwrnod yn realistig ac a oedd yn deillio o ffynonellau lleol ynteu rhai cenedlaethol a gofynnodd am eglurhad ar berfformiad y Gwasanaeth o gymharu â pherfformiad awdurdodau lleol eraill yn y maes hwn.

DRAFT

- Dywedodd y Swyddogion Tai y gall y broses o ddarparu ac ymgeisio am Grant Cyfleusterau i'r Anabl fod yn un gymhleth, a hynny oherwydd bod llawer o bartïon eraill yn rhan ohoni. Gallai hynny  achosi oedi yn yr amser a gymerir o'r adeg pan wneir y cyswllt cyntaf â'r Cyngor hyd nes y cadarnheir bod y gwaith wedi cael ei gwblhau. Mae'r Gwasanaeth Tai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydnabod bod angen adolygu'r broses GCA gyda'r nod o leihau'r amser a gymerir i ddarparu'r grant. Nid oes un ffactor cyffredin yn y broses ymgeisio sy'n esbonio'r oedi; yn hytrach mae'n gyfuniad o ffactorau. Cymhlethdod y broses yw gwraidd y mater. Daw'r sefyllfa o ran perfformiad awdurdodau lleol eraill yn glir unwaith y bydd y data cenedlaethol wedi ei gyhoeddi.

- Nododd y Pwyllgor y bu gostyngiad amlwg yng nghanran y cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith a gynhaliwyd o fewn yr amserlen yn Chwarter 1 (67% yn erbyn targed o 80%) a bod cyfanswm y cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith yn isel ar 85% o gymharu â tharged o 95%.Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd mai dirywiad dros dro yw'r tanberfformiad hwn yn hytrach nag arwydd o ddechrau tueddiad tuag at i lawr.

  Dywedodd y Prif Weithredwr fod y perfformiad o ran cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith yn Chwarter 1 yn siomedig ac na ellid ei esbonio'n foddhaol. Bydd y perfformiad hwn yn cael ei herio gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a chan y panelau her perfformiad er mwyn sicrhau gwelliant erbyn Chwarter 2. Fodd bynnag, er bod y dirywiad yn y perfformiad o ran cynnal y cyfweliadau hyn yn destun pryder, ar y llaw arall, gwelwyd gwelliant sylweddol yn y perfformiad mewn perthynas â Chyfarfodydd Adolygu Presenoldeb (CAP) – i fyny o 57% yn Chwarter 4 2016/17 i 78% yn Chwarter 1 2017/18 ac mae eu hansawdd wedi gwella'n sylweddol hefyd – mae hynny'n galonogol o gofio bod Cyfarfodydd Adolygu Presenoldeb yn elfen sylweddol o'r broses o reoli absenoldeb salwch.

- Nododd y Pwyllgor mewn perthynas â rheolaeth ariannol ar gyfer Chwarter 1, fod y gwariant blynyddol gwirioneddol a ragwelwyd yn £34m er bod y gyllideb yn £33m, ac y rhagwelir amrywiad sy'n cyfateb i minws 29.64% ar hyn o bryd. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a oedd unrhyw fesurau yn cael eu hystyried i unioni'r sefyllfa.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 mai'r amrywiad a ragwelir ar hyn o bryd yw gorwariant o 3.47% .Y gyllideb a broffiliwyd yw asesiad y Gwasanaeth o sut y bydd y gyllideb yn debygol o gael ei gwario yn ystod y flwyddyn a'r incwm a gesglir. Er bod y gyllideb a broffiliwyd yn gweithio'n dda mewn perthynas â chostau sefydlog fel cyflogau oherwydd bod modd rhagweld y fath gostau'n gywir, gall rhai taliadau mwy, gan gynnwys grantiau ac amseriad grantiau, gael effaith sylweddol ar y gyllideb. O ran monitro'r gyllideb ei hun, y ffigwr canlyniad arwyddocaol yw hwnnw ar gyfer diwedd y flwyddyn; mae'r Cerdyn Sgorio yn dangos bod y canlyniad refeniw a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer cyllideb o £126m yn awgrymu gorwariant o £2.16m neu 1.71% o'r gyllideb net. Er y gall y ffigyrau chwarter cyntaf roi arwydd cynnar o'r cyfeiriad teithio posib, mae'r gwahaniaethau amseru'n golygu bod y gymhariaeth yn llai na pherffaith. Mae'r sefyllfa chwarter 1 yn cynrychioli 3 mis o wariant gwirioneddol a 9 mis o wariant a ragwelir a gall llawer o bethau ddigwydd yn y cyfnod naw mis hwnnw. Mae'r rhagamcanion yn dueddol o fod yn geidwadol; bydd mwy o eglurder yn sgil canlyniadau Chwarter 2 pan fydd rhai rhagamcanion yn cael eu cryfhau yn sgil elfen o sicrwydd. Yn ogystal, mae ffactorau tymhorol i'w hystyried gan fod

DRAFT

misoedd y gaeaf yn fwy tebygol o gael effaith ar gostau, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau Priffyrdd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r rhain yn cael eu ffactora i mewn i'r rhagamcanion. Mae'r gorwariant yn ganlyniad a ragwelir mewn cyd-destun lle nad oes rhwyd diogelwch erbyn hyn o fewn cyllidebau gwasanaeth unigol yn dilyn blynyddoedd o ostyngiadau ariannol. Mae'r mater yn arbennig o berthnasol mewn cyllidebau a arweinir gan y galw megis y Gwasanaethau Plant, Addysg ac Oedolion lle gall y pwysau ariannol fod yn ddifrifol.

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar i ba raddau y mae'r gallu i gwrdd â'r gyllideb yn dibynnu ar werthu asedau. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 nad yw derbyniadau cyfalaf a gafwyd yn sgil gwerthu asedau yn bwydo i mewn i'r gyllideb refeniw; yn hytrach, maent yn cael eu defnyddio i ariannu prosiectau cyfalaf a'u ffactora i mewn i'r rhaglen gyfalaf neu'n cael eu defnyddio i gynhyrchu balansau arian parod sy'n galluogi'r Cyngor i leihau ei ymrwymiadau benthyca a / neu ei ddyled.

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar sut mae sefyllfa ariannol Chwarter 1 2017/18 yn cymharu â'r un cyfnod ar gyfer 2016/17 fel arwydd posib o faint yr her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn y flwyddyn ariannol hon. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod sefyllfa Chwarter 1 2016/17 yn dangos gorwariant o £560k yn erbyn y gyllideb a broffiliwyd ac roedd y gorwariant a ragwelwyd erbyn diwedd y flwyddyn honno'n llai nag ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Fel mae'n digwydd cafwyd tanwariant yn hytrach na'r gorwariant a ragwelwyd ar ddiwedd 2016/17, a hynny oherwydd bod arbedion unwaith ac am byth wedi dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn. Felly mae'r sefyllfa bresennol yn llai ffafriol nag ar yr un pryd y llynedd.

**Ar ôl nodi'r darlun cyffredinol o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol ar gyfer Chwarter 1 2017/18 fel y portreadwyd nhw gan Gerdyn Sgorio Corfforaethol Ch1, ac wedi nodi hefyd y meysydd a oedd yn tanberfformio a'r camau lliniaru arfaethedig, PENDERFYNODD y Pwyllgor -**

- **Nodi a chefnogi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol fel y nodir nhw ym mharagraffau 1.3.1. i 1.3.4 yr adroddiad.**
- **Nodi a derbyn y mesurau lliniaru a amlinellir mewn perthynas â'r meysydd a nodir yn y paragraffau uchod.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

## 4 CYNLLUN Y CYNGOR AM Y CYFNOD 2017-2022

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol a oedd yn ymgorffori Cynllun drafft y Cyngor am y cyfnod o 2017 i 2022.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol fod Cynllun y Cyngor yn ddogfen strategol allweddol sy'n amlinellu nodau ac amcanion Cyngor Sir Ynys Môn am y cyfnod pum mlynedd nesaf. Y ddogfen fydd y prif yrrwr y tu ôl i benderfyniadau'r Cyngor yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys sut mae'n siapio ei gyllideb, sut mae'n datblygu ei strategaethau a sut mae'n cynllunio ei wasanaethau.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y ddogfen yn amlinellu blaenoriaethau'r Cyngor am y pum mlynedd nesaf; bydd y Cynllun yn gyfrwng hollbwysig ar gyfer rheoli a gwerthuso perfformiad

DRAFT

y Cyngor, gan gynnwys sicrhau bod y Cyngor yn parhau i fod yn atebol am y gwaith y mae'n ei wneud. Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried a yw'r Cynllun yn rhoi cyfeiriad clir i waith y Cyngor am y cyfnod dan sylw; a yw'n ddigon penodol yn y blaenoriaethau y mae'n eu cyflwyno ac a yw'n darparu fframwaith eglur a chryf ar gyfer adolygu perfformiad y Cyngor dros y pum mlynedd. Wrth ddatblygu Cynllun y Cyngor, rhoddwyd ystyriaeth i'r goblygiadau cost o ran gwireddu blaenoriaethau'r Cyngor a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â datblygiad y Cynllun Ariannol Tymor Canol. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth hefyd wedi pennu amcanion penodol dros dair blynedd a fydd o gymorth i gyflawni'r Cynllun cyffredinol.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r Cynllun ac fe'i derbyniwyd ar yr amod ei fod yn cael ei fonitro i sicrhau ei fod ar y trywydd iawn; cynigiwyd ac eiliwyd ei fod yn cael ei ailgyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini i'w adolygu o fewn blwyddyn. Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant y dylid adolygu Cynllun y Cyngor o fewn 6 mis yn enwedig o safbwynt ariannol ac am y rheswm y gallai aros am 12 mis olygu colli cyfle i adnabod a chywiro unrhyw lithriad posib.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod adolygiad ar ôl 12 mis yn debygol o roi darlun eglurach a mwy cyfansawdd o sut mae'r gwaith o weithredu'r Cynllun yn esblygu. O safbwynt ariannol ni chredir bod goblygiadau cyllidebol sylweddol i'r Cynllun ar hyn o bryd.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 fod y Cynllun yn cynnwys cyfuniad o brosiectau sydd i'w hariannu o'r cyllidebau refeniw presennol. Os gwelir, wrth weithredu'r Cynllun hwnnw, fod angen cyllid refeniw ychwanegol yna bydd hynny'n cael ei gynnwys yn y gyllideb flynyddol, neu os yng nghanol y flwyddyn, caiff sylw trwy'r broses ddemocrataidd arferol lle gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith. Yn achos unrhyw brosiectau cyfalaf sy'n bwydo i mewn i'r rhaglen gyfalaf, mae'r rhaglen gyfalaf hefyd yn destun gwaith monitro chwarterol rheolaidd drwy'r Pwyllgor Gwaith. O ran prosiectau sy'n gysylltiedig â'r CRT, mae yna gynllun busnes ar gyfer y CRT sy'n cael ei fonitro gan y Bwrdd Gwasanaethau Tai; mae'r gyllideb CRT hefyd yn cael ei monitro gan y Pwyllgor Gwaith. Felly mae prosesau monitro ariannol wedi eu sefydlu a fydd yn helpu i sicrhau bod y Cynllun yn aros ar y trywydd iawn yn ariannol. Yn ogystal, gan fod Cynllun y Cyngor yn gynllun pum mlynedd, mae'n annhebygol y bydd cynnydd sylweddol wedi'i wneud erbyn diwedd 6 mis o ran gwariant gwirioneddol; mae'n debygol y bydd trefniadau cynllunio yn cael eu gwneud fel rhan o'r cyfnod cychwynnol hwn. Nid yw hyn yn golygu nad yw'r Cynllun yn cael ei gyflawni ond bod y gwariant o reidrwydd yn dilyn ymlaen o gamau eraill. Yn ei farn broffesiynol ef byddai cynnal adolygiad mewn 12 mis yn fwy manteisiol nag ar ôl 6 mis ym mlwyddyn gyntaf y Cynllun.

Ar ôl ystyried barn y Swyddogion, ac ar ôl trafodaeth bellach, pleidleisiodd y Pwyllgor i dderbyn Cynllun y Cyngor, a bod y Pwyllgor yn adolygu gweithrediad y cynllun ar ôl 12 mis, gan gadw mewn cof hefyd y gellid cynnal yr adolygiad yn gynt os oes angen. (*Ymataliodd y Cadeirydd rhag pleidleisio).*

**PENDERFYNWYD derbyn Cynllun y Cyngor fel y cyflwynwyd ef a'i anfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith am argymhelliad ffurfiol i'r Cyngor, a bod y Pwyllgor Sgriwtini yn adolygu gweithrediad y Cynllun ar ôl 12 mis.**

**CAM GWEITHREDU YCHWANEGOL: Trefnu i adolygu Cynllun y Cyngor ar ddiwedd y 12 mis.**

DRAFT

## 5 CYNNYDD O RAN GWELLA'R GWASANAETHAU PLANT

**5.1** Cyflwynwyd ar gyfer ystyriaeth a sylwadau'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant Dros Dro yn nodi'r cynnydd hyd yn hyn yn erbyn y Cynllun Gwella diwygiedig ar gyfer y Gwasanaethau Plant a oedd yn cynnwys argymhellion adroddiad Arolygu AGGCC

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr argymhellion a wnaed gan AGGCC yn y broses o gael eu gweithredu ac y canolbwyntir ar hyn o bryd ar faterion staffio, gan gynnwys ailstrwythuro'r timau ymarfer, lansio polisi goruchwyliaeth newydd a gweithredu Strategaeth Gweithlu. Gwneir hyn oll i atgyfnerthu trefniadau ar gyfer recriwtio a chadw staff. Mae'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant wedi cyfarfod ddwywaith ac wedi ystyried sefydlu rhaglen waith dros y misoedd nesaf.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) fod sicrhau gweithlu sefydlog yn hanfodol er mwyn i'r gwasanaeth gyflawni ei gyfrifoldebau deddfwriaethol a gweithredu argymhellion arolygiad AGGCC, a hynny o gofio bod gweithlu ansefydlog yn y blynyddoedd diwethaf wedi cael ei nodi fel gwendid yn y gwasanaeth. Mae mynd i'r afael â hyn yn elfen allweddol o'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ac mae'r adroddiad yn disgrifio'r elfennau y canolbwyntiwyd arnynt yn y misoedd diwethaf. Mae'r rhain yn cwmpasu ailstrwythuro; goruchwyliaeth, recriwtio a chadw staff a datblygu a gweithredu'r Strategaeth Gweithlu. Fel rhan o'r ailstrwythuro, penodwyd Rheolwyr Gwasanaeth ac Arweinwyr Ymarfer newydd a disgwylir iddynt ddechrau yn eu rolau newydd ddechrau mis Medi. Fodd bynnag, mae'r gwaith recriwtio yn parhau gyda'r nod o leihau dibyniaeth y gwasanaeth ar staff asiantaeth. Mae newidiadau eraill yn cael eu rhoi ar waith mewn perthynas â gweithio gyda phartneriaid, sicrhau ansawdd a gwasanaethau i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Ymhelaethodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Plant ar y strwythur staff newydd sy'n cynnwys Grwpiau Ymarfer llai ar draws ymyrraeth gynnar ac ymyrraeth ddwys dan arweiniad Arweinyddion Ymarfer sy'n gyfrifol am dri neu bedwar Gweithiwr Cymdeithasol a llwyth achosion sy'n llawer llai.

**5.2** Cyflwynwyd adroddiad cynnydd gan y Rheolwr Sgriwtini ar waith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant hyd yma ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor.

Diweddarwyd y Pwyllgor gan y Cynghorydd Richard Griffiths, cynrychiolydd y Pwyllgor ar y Panel Gwella Gwasanaethau Plant a'r Pencampwr Plant sy'n Derbyn Gofal ynghylch y materion a drafodwyd gan y Panel yn ei ddau gyfarfod cychwynnol ym mis Gorffennaf a mis Awst, 2017 fel y crynhowyd yn adran 3.2 yr adroddiad. Cadarnhaodd ei fod yn ymddangos bod yr holl ffrydiau gwaith sy'n ymwneud â'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ar darged hyd yn hyn ac nad oes unrhyw faterion ar hyn o bryd y mae angen i'r Panel eu huwch-gyfeirio i'r Pwyllgor Sgriwtini i'w hystyried..

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau canlynol -

- Yng ngoleuni'r ailstrwythuro a'r ymrwymiad a wnaed i leihau dibyniaeth ar staff asiantaeth, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r defnydd o staff asiantaeth yn y Gwasanaethau Plant a'r gymhareb rhwng staff parhaol a staff asiantaeth a'r costau cysylltiedig. Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Plant fod 11 aelod o staff asiantaeth yn y gwasanaeth ar hyn o bryd ; eglurodd fod y gwasanaeth yn gweithredu rhaglen i leihau nifer y staff asiantaeth dros

amser. Fodd bynnag, mae yna aelodau o staff asiantaeth y byddai'r gwasanaeth yn dymuno cadw eu harbenigedd a'u profiad fel staff parhaol drwy'r broses recriwtio arferol.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) fod y gwasanaeth yn ceisio sicrhau bod yr ailstrwythuro'n digwydd o fewn y gyllideb staff gyfredol. Mae mwyafrif y staff asiantaeth yn gweithio mewn swyddi a oedd yn wag ac felly mae elfen o'r costau yn disgyn o fewn y cyllidebau cyfredol. Fodd bynnag, mae costau ychwanegol yn gysylltiedig â staff asiantaeth. Mae'r gwasanaeth yn ymdrechu i recriwtio i'r swyddi gwag parhaol a bydd hynny'n cymryd amser. Hyd nes y bydd y broses honno wedi'i chwblhau, bydd staff asiantaeth yn cael eu defnyddio. Mae'r gwasanaeth eisoes wedi recriwtio pump o weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso a fydd yn cael eu cofrestru mewn ychydig fisoedd a bydd eu llwythi achosion yn ysgafnach i ganiatáu iddynt ymgyfarwyddo â'r gwasanaeth. Bydd staff asiantaeth yn darparu gwasanaeth ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn a fydd yn golygu costau ychwanegol. Dywedodd y Swyddog fod elfen sylweddol o'r costau yn y Gwasanaeth Plant yn deillio o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal sydd ag anghenion na ellir ond eu diwallu trwy ddarparu gofal preswyl iddynt. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac o fewn y boblogaeth honno mae cnewyllyn bach o bobl ifanc y mae eu hanghenion yn gymhleth ac yn ddwys; mae cwrdd ag anghenion y garfan hon yn heriol ac yn gostus. Yn ogystal, mae prinder gofalwyr maeth lleol yn golygu bod yn rhaid i'r gwasanaeth droi at y sector gofal maeth annibynnol lle mae'r costau'n uwch.

- Nododd y Pwyllgor fod cadw staff wedi bod yn her i'r Gwasanaeth yn y gorffennol; gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y camau a gymerir i gadw staff.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) fod y gwasanaeth yn ceisio creu amodau lle bydd staff yn dymuno aros yn y Cyngor ond y gall hynny fod yn her, ac felly mae'n rhaid disgwyl elfen o "drosiant staff". Mae'r gwaith o ailstrwythuro'r timau ymarfer; lansio polisi goruchwyliaeth newydd a gweithredu rhaglen gynefino gynhwysfawr, yn ogystal â Strategaeth Gweithlu oll wedi digwydd er mwyn rhoi cymorth gwell i staff newydd yn ogystal â'r staff cyfredol. Er bod rhywfaint o drosiant staff yn elfen naturiol o'r gweithlu, gobeithir y bydd y strategaethau sy'n cael eu gweithredu yn ei gwneud hi'n haws i'r gwasanaeth gadw staff.

**Ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd ar lafar a thrwy'r adroddiadau ysgrifenedig, PENDERFYNODD y Pwyllgor -**

- **Ar sail y wybodaeth a gyflwynwyd, ei fod yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yn hyn o fewn y Gwasanaethau Plant a,**
- **Nododd y cynnydd a wnaed hyd yn hyn â gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant**
- **Nododd yr ymddengys bod yr holl ffrydiau gwaith sy'n ymwneud â'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ar darged hyd yn hyn.**
- **Nododd nad oes unrhyw faterion ar hyn o bryd y mae angen i'r Panel eu huwch-gyfeirio i'w hystyried gan y rhiant-bwyllgor.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU PELLACH**

DRAFT

## 6 BLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynwyd Blaenraglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol hyd at fis Ebrill, 2018 i'w hystyried gan y Pwyllgor. **Derbyniodd a nododd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith fel y cyflwynwyd hi.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU PELLACH**

## 7 EITEM ER GWYBODAETH: ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016/17 – GWRANDO AR GWYNION A DYSGU OHONYNT.

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol ar Weithdrefn Sylwadau a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2016/17 er gwybodaeth i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn nodi sut y gweithredwyd Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant yn ystod 2016/17.

Nododd y Pwyllgor bod dadansoddiad o natur y cwynion am Wasanaethau Plant yn dangos mai un o themâu cwynion Cam 1 yw Gweithwyr Cymdeithasol yn newid yn aml. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a yw'r Gwasanaeth yn monitro pa mor aml mae Gweithwyr Cymdeithasol plant sy'n derbyn gofal yn newid. Bu i'r Pwyllgor nodi ymhellach bod canran yn plant sy'n derbyn gofal sydd wedi profi un neu ragor o achosion o newid ysgol yn ystod cyfnodau o dderbyn gofal yn cael ei fonitro trwy'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol oherwydd yr effaith bosib y gall newid o'r fath ei gael ar y plentyn, ac fe awgrymodd y dylai'r un safon gael ei weithredu yn achos gweithwyr cymdeithasol yn newid.

Bu i'r Swyddogion gadarnhau er nad yw gweithwyr cymdeithasol yn newid yn agwedd o berfformiad sy'n cael ei dracio a'i fonitro ar hyn o bryd, fe all cyflwyno sustem TG newydd wneud hynny'n fwy ymarferol. Gall trosiant staff a materion yn gysylltiedig â recriwtio a chadw staff arwain at newidiadau o'r fath; fodd bynnag, mae disgwyl y bydd ail strwythuro'r timau ymarfer a gweithredu Strategaeth Gweithlu sy'n cwmpasu materion recriwtio, cadw a chefnogi staff yn arwain at fwy o sefydlogrwydd, cysondeb mewn ymarfer ac felly llai o newidiadau a llai o gwynion i'r Gwasanaeth yn y dyfodol.

**Nododd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol er gwybodaeth, gan gynnwys –**

- **Y sylwadau a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod 2016/17 ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarparwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol**
- **Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithredu'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion ac yn delio â chwynion.**
- **Y Cynllun Gweithredu ar gyfer datblygu'r trefniadau i ddelio'n effeithiol gyda'r sylwadau a chwynion a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.**

  **CAM GWEITHREDU YCHWANEGOL: Swyddogion i edrych ar ba mor ymarferol yw monitro mewn ffordd reolaidd, pa mor aml mae gweithwyr cymdeithasol plant sy'n derbyn gofal yn newid, ac adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.**

**Y Cynghorydd Aled Morris Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT

DRAFFT

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 2 Hydref, 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Richard O. Jones, Alun Roberts, Shaun Redmond<br><br>Aelod Cyfetholedig: Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig) |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes / Cyfarwyddwr Statudol Gwasnaethau Cymdeithasol)<br>Pennaeth Dysgu (ar gyfer eitem 4)<br>Pennaeth Gwasnaethau Oedolion (ar gyfer eitem 5)<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol (ar gyfer eitem 3)<br>Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes (GM) (ar gyfer eitem 3)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mrs Anest Frazer (Aelod Cyfetholedig – Yr Eglwys yng Nghymru) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd a Deilydd Portffolio Gwasnaethau Cymdeithasol), y Cynghorydd R.Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg), y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Gwasnaethau Corfforaethol), y Cynghorydd Carwyn Jones (Aelod Lleol mewn perthynas ag Eitem 4), y Cynghorydd Lewis Davies (Aelod Lleol mewn perthynas ag Eitem 4), Vicky Poole (Cyfarwyddwr Ardal Gogledd Cymru - AGGCC (ar gyfer Eitem 2), Marc Roberts (Arolygydd Arweiniol – AGGCC) ar gyferf Eitem 2), Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau), Pennaeth Gwasnaethau Democrataidd<br><br>Hefyd yn bresennol ar gyfer Eitem 4: Mrs Emma Taylor (Cadeirydd Llywodraethwyr, Ysgol Biwmares, Mrs Rhian Jones (Ysgol Biwmares), y Cynghorydd Frank Carr (Maer Tref Biwmares), y Cynghorydd Alwyn Rowlands (Cyngor Tref Biwmares). |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Estynnodd groeso penodol i Vicky Poole, Cyfarwyddwr Ardal Gogledd Cymru AGGCC a Marc Roberts, Arolygydd Arweiniol AGGCC a hefyd i gynrychiolwyr Ysgol Biwmares a Chyngor Tref Biwmares a oedd yn bresennol i gyfrannu i'r cyfarfod mewn perthynas ag Eitem 4 ar yr agenda.

## 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Bu'r Cynghorydd Lewis Davies (nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor) ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag eitem 4 ar y rhaglen gan ei fod yn Gadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Llangoed. Dywedodd y Cynghorydd Davies ei fod wedi cael cyngor cyfreithiol a'i fod wedi'i gynghori nad yw'r diddordeb yn un sy'n rhagfarnu.

Bu'r Cynghorydd Carwyn Jones (nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor) ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag eitem 4 ar y rhaglen gan ei fod yn Gadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Llandegfan. Datganodd y Cynghorydd Jones diddordeb pellach sy'n rhagfarnu mewn perthynas â'r mater hwn, sef bod ei gefnder cyntaf yn cael ei gyflogi yn Ysgol Biwmares a bod mab ei gefnder yn mynychu Ysgol Llandegfan. Dywedodd y Cynghorydd Jones, yn dilyn cais i'r Pwyllgor Safonau, ei fod wedi derbyn caniatâd arbennig ar 18 Gorffennaf i gael cymryd rhan yn llawn yn y broses moderneiddio ysgolion yn ardal Seiriol ond nid i bleidleisio ar y mater.

Bu'r Cynghorydd Lewis Davies (nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor) ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag eitem 4 ar y rhaglen gan ei fod yn aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Biwmares. Dywedodd y Cynghorydd Roberts ei fod wedi cael cyngor cyfreithiol a'i fod wedi'i gynghori nad yw'r diddordeb yn un sy'n rhagfarnu a bod modd iddo gymryd rhan a phleidleisio ar y mater.

## 2. PERFFORMIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2016/17

Cyflwynwyd llythyr adolygu perfformiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) mewn perthynas â Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor ynghyd â Chynllun Gweithredu ymatebol yr Awdurdod. Roedd y llythyr yn crynhoi canlyniad archwiliad, ymgysylltiad ac adolygiad perfformiad yr Arolygiaeth mewn perthynas â Gwasnaethau Cymdeithasol Ynys Mon yn ystod 2016/17.

Adroddodd Vicky Poole, Cyfarwyddwr Ardal Gogledd Cymru CSSIW, ar brif bwyntiau'r llythyr fel â ganlyn –

- Mae'r Awdurdod Lleol wedi gwneud cynnydd cyson wrth weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (DGCLl) gyda ffocws penodol wedi ei roi i ddatblygu gwasanaethau ataliol sy'n hyrwyddo annibyniaeth ac adnoddau cymunedol.
- Mae rhaglen trawsnewid Gwasanaethau Oedolion yn rhoi pwyslais ar gefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol a llawn. Mae'r pwynt cyswllt unigol o fewn gwasanaethau oedolion wedi ei hen sefydlu.
- Nododd yr Arolygiaeth bod enghreifftiau cadarnhaol o ddatblygu dulliau amgen o ddarpariaeth yn unol â'r DGCLl a oedd yn edrych ar ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau i bobl.
- Nododd yr Arolygiaeth bod y gwaith partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn parhau a bod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud, yn enwedig mewn perthynas â datblygu gwasanaethau preswyl er mwyn cefnogi pobl sydd â dementia ac anghenion cymhleth. Mae gwaith partneriaeth strategol â BIPBC yn parhau i fod yn her, rhywbeth y mae angen i awdurdodau lleol yn yr ardal fynd i'r afael ag ef ar y cyd.
- Nododd yr Arolygiaeth hefyd bod gan yr Awdurdod gynlluniau i ailgomisiynu gofal cartref ar sail ardal a chynghorwyd y dylid bod yn ofalus wrth wneud hyn.
- Mae'r awdurdod lleol yn allanolyn yn ei berfformiad mewn perthynas â'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid ac mae'n edrych ar ei brosesau casglu data er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r rhesymau am hyn. Dyma faes y bydd CSSIW yn ei ddilyn i fyny yn 2017/18.

DRAFT

- Bu cynnydd annigonol mewn moderneiddio gwasanaethau ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu, er fe nodwyd bod mwyn o gynnydd wedi'i wneud yn y maes hwn eleni.
- Mae eiriolaeth a mynediad i eiriolaeth yn rhan bwysig o'r DGCLl. Mae eiriolaeth wedi'i adnabod gan yr awdurdod lleol fel maes ar gyfer gwelliant o fewn gwasanaethau oedolion. Gwelwyd fod y Gwasanaethau Plant yn gwneud defnydd effeithiol o eiriolaeth anffurfiol.
- Yn ystod 2016/17, roedd gweithgareddau'r Arolygiaeth ar draws yr holl awdurdodau yng Nghymru yn canolbwyntio ar ddau brif thema, sef -

  - Diogelu ar gyfer Oedolion – roedd yr Arolygiaeth yn fodlon â'r ffordd mae trefniadau diogelu ar gyfer oedolion yn gweithio yn Ynys Môn a gwelwyd fod hyn yn gryfder o fewn yr awdurdod lleol.
  - Gofalwyr - roedd yr Arolygiaeth yn cydnabod fod yna wasanaethau trydydd sector wedi'u sefydli er mwyn cefnogi gofalwyr a gomisiynir gan yr awdurdod lleol. Mae gan yr aelod etholedig, sy'n bencampwr ar gyfer gofalwyr, lawer o wybodaeth am anghenion gofalwyr, sydd hefyd yn gryfder. Fodd bynnag, mae rhestr aros ar gyfer y gwasanaeth gofalwyr ifanc sydd wedi'i sefydlu - mae hyn wedi'i drafod â'r Gwasanaethau Plant. Mae cymorth i ofalwyr pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddwyr sylweddau hefyd yn broblem ar draws awdurdodau yng Nghymru. Nid yw Swyddogion wedi rhoi digon o sylw cyson i ddatblygiad y strategaeth gofalwyr a'r gwasanaethau cefnogi.

- Mae'r gwaith dilynol mewn perthynas ag arolwg Tachwedd 2016 o'r Gwasanaethau Plant yn parhau. Mae'r awdurdod lleol wedi cynhyrchu cynllun gwelliant sy'n cael ei fonitro gan CSSIW drwy gyfres o gyfarfodydd adolygu wedi'u strwythuro. Mae AGGCC hefyd yn arsylwi cyfarfodydd swyddogion allweddol a'r sgriwtini gan aelodau ac yn tracio profiadau teuluoedd. Cynhelir arolwg arall o'r gwasanaeth er mwyn gwerthuso'r cynnydd.
- Mae'r llythyr hefyd yn crynhoi cynlluniau archwilio, ymgysylltu ac adolygu'r Arolygiaeth am y flwyddyn bresennol.

Dywedodd yr Arweinydd a'r Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol bod y llythyr adolygu perfformiad yn adlewyrchu'r cynnydd sydd wedi'i wneud gan yr Awdurdod Lleol mewn perthynas â'i Wasanaethau Plant ac Oedolion. Er mai'r prif ffocws yn 2016/17 oedd Gwasanaethau Plant, lle mae'r gwaith yn parhau, nid yw'r Awdurdod wedi anghofio am Wasanaethau Oedolion a chydnabyddir yr angen i gynnal momentwm yn y maes hwn. Mae'r llythyr yn tynnu sylw at y pwysigrwydd o sicrhau ymrwymiad cyfartal tuag at welliant yn y ddau faes. Diolchodd y Deilydd Portffolio yn arbennig i'r Pencampwr Gofalwyr am ei waith gan iddo amlygu'r angen i roi'r llais i ofalwyr yn lleol ac yn genedlaethol. Fel y Pencampwr Gofalwyr blaenorol mae hi wedi sefydlu cysylltiadau â Gweithredu Dros Blant (Action For Children) sy'n cefnogi gwasanaethau ar gyfer gofalwyr ifanc yn Ynys Môn; mae'r awdurdod lleol yn cydnabod fod gwaith pellach i'w wneud er mwyn gwella'r gwasanaeth gofalwyr ifanc ac er mwyn cael gwell dealltwriaeth o anghenion gofalwyr ifanc.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes / Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) bod mynd i'r afael ag anghenion gofalwyr ifanc wedi'i nodi fel eitem 12 yn y Cynllun Blaenoriaethau ar gyfer Gwella; mae opsiynau yn cael eu hystyried ar hyn o bryd sy'n cynnwys gweithio rhanbarthol ac isranbarthol.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau canlynol –

- Nododd y Pwyllgor gynnwys y llythyr; gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad a oedd lefel y pryder, o ochr y Rheoleiddiwr mewn perthynas ag agweddau penodol ar y ddarpariaeth gwasanaeth, wedi lleihau wrth i'r Awdurdod symud ymlaen â'r gwaith.

  Dywedodd Arolygydd Arweiniol CSSIW, tra bo pryder wedi'i fynegi am rai pethau fel a nodir yn y llythyr e.e. cynnydd araf yn y ffordd mae gwasanaethau ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu yn cael eu comisiynu, mae'r Arolygiaeth yn ymwybodol o'r gwaith sy'n cael ei wneud, yn enwedig ar y cyd â phartneriaid, er mwyn datblygu materion yn y maes hwn. Mae'r Awdurdod yn asesu sut mae'r risgiau mewn perthynas â gofal cartref yn cael eu rheoli; tra bo'r Awdurdod yn cymryd agwedd systematig tuag at y mater mae'r canlyniad yn anodd ei ddarogan gan fod y sefyllfa yn datblygu ac yn parhau'n fyw. Mae'r Arolygiaeth o'r farn bod perfformiad mewn perthynas â threfniadau diogelu rhag colli rhyddid yn broblem casglu data yn bennaf a does dim tystiolaeth i awgrymu bod defnyddwyr gwasanaeth wedi dioddef effaith anffafriol o ganlyniad i'r mater hwn. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud yn seiliedig ar y Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant manwl ac er bod gan yr Arolygiaeth bryderon o hyd am y Gwasanaethau Plant, mae'n cydnabod fod cynnydd wedi'i wneud, yn enwedig mewn perthynas â'r agwedd strategol tuag at wasanaethau ataliol a thuag at faterion gweithlu a sicrwydd ansawdd.

- Gofynnodd y pwyllgor am gadarnhad o ddefnydd yr Arolygydd o'r gair gofal (caution) yn y rhan o'r llythyr sy'n cyfeirio at wasanaethau i bobl hŷn a darpariaeth breswyl i gefnogi pobl sydd â dementia ac anghenion cymhleth. Cadarnhaodd yr Arolygwyr fod yr angen i fod yn ofalus yn ymwneud ag ailgomisiynu gofal cartref ar sail ardal (mae Awdurdodau eraill yng Nghymru wedi ceisio gwneud hyn ond wedi cael problemau) ac nid mewn perthynas â'r agwedd tuag at ofal preswyl ar gyfer pobl â dementia, rhywbeth nad oes gan yr Arolygwyr bryderon amdano. Mae risgiau mewn perthynas â throsglwyddo'r bobl gywir i ddarpariaeth gofal ychwanegol; mae'r Awdurdod yn ymwybodol o hyn ac yn defnyddio'i brofiad blaenorol o leoli unigolion mewn darpariaeth gofal ychwanegol. Mae'r Awdurdod hefyd yn ymwybodol o'r angen i barhau i ddarparu gofal priodol ar gyfer pobl hŷn fregus yn eu cartrefi eu hunain.

- Nododd y Pwyllgor y bydd y Panel Plant yn ystyried y gweithredoedd o fewn y Cynllun Blaenoriaethau Gwella sy'n benodol i Wasanaethau Plant ac y bydd yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Gwelliant Manwl ym mis Tachwedd. Nododd y Pwyllgor hefyd fod angen iddo gael diweddariadau yn yr un modd am gynnydd mewn perthynas â materion Gwasnaethau Oedolion a gofynnodd am ddiweddariad cyffelyb ar Wasanaethau Oedolion yng nghyfarfod mis Tachwedd.

- Nododd y Pwyllgor nad yw rhai o'r blaenoriaethau ar gyfer gwella sydd wedi eu hadnabod yn y Cynllun Gweithredu yn cynnwys dyddiad targed ar gyfer eu gweithredu. Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd nodi amserlenni ac o beidio â gadael materion yn ben agored ac felly risg nad yw pethau'n cael eu gwneud mewn modd amserol. Dywedodd y Pennaeth Gwasnaethau Oedolion nad oes dyddiadau targed wedi eu nodi ger rhai pethau am resymau penodol e.e. oherwydd eu bod yn ddilyniant i weithredoedd eraill e.e. mae pwynt gweithredu 1 yn ddibynnol ar dderbyn adroddiad gan AGGCC. Dywedodd y Swyddog y gellir ymgorffori'r dyddiadau cwblhau yn y diweddariadau ar y ddau wasanaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd.

  **Penderfynwyd bod y Pwyllgor –**

  - **Yn derbyn ac yn nodi cynnwys y Llythyr Adolygiad Perfformiad Blynyddol gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym Mehefin, 2017 fel adlewyrchiad o gynnydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2016/17.**



DRAFT

- **Yn cefnogi'r Cynllun Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymateb i'r Llythyr Adolygu Perfformiad Blynyddol.**
- **Yn gofyn am i adroddiad cynnydd yn erbyn y gweithredoedd blaenoriaeth o fewn Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant gael ei gyflwyno i gyfarfod mis Tachwedd y Pwyllgor.**

  **GWEITHRED YCHWANEGOL A GYNIGIWYD: Bod y diweddariadau ar Wasanaethau Plant ac Oedolion i gyfarfod mis Tachwedd yn cynnwys dyddiadau gweithredu ar gyfer yr holl weithredoedd blaenoriaeth.**

**3. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL (CYNLLUN GWELLA) 2016/17**

Cyflwynwyd ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol a oedd yn cynnwys yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2016/17. Mae'r adroddiad yn edrych yn ôl ar berfformiad y Cyngor ar gyfer 2016/17 ac yn benodol y cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion gwelliant a nodir yn y 7 maes allweddol o fewn Dogfen Darpariaeth Flynyddol 2015/2016.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol bod yr Adroddiad Perfformiad blynyddol yn cyfleu neges gadarnhaol am berfformiad y Cyngor yn 2016/17. Llwyddodd y Cyngor i barhau i gyflawni nifer o'i ymrwymiadau mewn nifer o feysydd blaenoriaeth gan gynnwys o fewn Gwasanaethau Oedolion, Addysg, Datblygiad Economaidd a Chymunedol a Thai. Mae'r llwyddiannau hyn yn cael eu trafod yn fanylach o fewn naratif yr adroddiad. Gwelwyd gwelliant mewn dros 64% o Ddangosyddion Perfformiad y Cyngor (DP) yn ystod y flwyddyn a tra gwelwyd gostyngiad ym mherfformiad rhai DP, mae canran y rheini hefyd i lawr o 45% yn 2015/16 i 24% yn 2016/17. Dywedodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Corfforaethol ei fod yn falch iawn o allu adrodd bod Cyngor Sir Ynys Môn, am y tro cyntaf erioed, ymysg y pedwar awdurdod lleol gorau yng Nghymru mewn perthynas â pherfformiad DP cyffredinol ac yn seithfed o'r cyfanswm o 22 awdurdod lleol o ran perfformiad yn y chwartel uchaf. Mae hyn heb os yn gyrhaeddiad sylweddol a chlodwiw yn enwedig yng nghyd-destun y newidiadau sydd wedi digwydd yn y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf a'r sefyllfa ariannol gynyddol heriol.

Dywedodd yr Arweinydd bod y Cyngor blaenorol wedi gweithio'n ddiwyd dros gyfnod y Cyngor diwethaf er mwyn gallu symud y Cyngor yn ei flaen a drwy wneud hynny gosodwyd her i'r Cyngor newydd gynnal yr un momentwm. Nododd bod angen diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y llwyddiant a bod yr Adroddiad Perfformiad yn glod iddynt.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad ac fe nodwyd y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni'r amcanion a osodwyd gan y Cyngor yn 2016/17 a oedd hefyd wedi nodi diwedd cyfnod Cynllun Corfforaethol 2013/17. Nododd y Pwyllgor ymhellach tra mai un o'r dyheadau a nodir gan y Cyngor oedd "gyrru adfywio cymunedol drwy ddatblygu cynlluniau tref a chymuned holistig ar gyfer prif aneddiadau'r Ynys gan flaenoriaethu Caergybi, Llangefni ac Amlwch", nid oedd unrhyw sôn am y cynlluniau ar gyfer Amlwch fel un o'r aneddiadau blaenoriaeth a enwir ac nid oedd yn gysylltiedig â'r cynlluniau y cyfeiriwyd atynt yn y rhestr o gyraeddiadau. Yn ychwanegol at hynny, nododd y Pwyllgor nad oedd unrhyw gyfeiriad at gynlluniau adfywio cymuned ar gyfer Biwmares fel y brif dref yng nghornel de-ddwyreiniol yr Ynys ac 'roedd o'r farn y dylid ei gynnwys mewn unrhyw raglen adnewyddu.

Nododd y Pwyllgor mai'r cyfnod y mae'r Adroddiad Perfformiad yn berthnasol iddo yw cyfnod Gweinyddiaeth flaenorol y Cyngor cyn yr Etholiadau Llywodraeth leol ym Mai 2017 a gofynnwyd am gadarnhau hynny yn yr adroddiad.



DRAFT

**Yn dilyn ystyried yr adroddiad fe benderfynodd y Pwyllgor ei fod yn cytuno y dylid cyhoeddi fersiwn o Adroddiad Perfformiad 2016/17 erbyn y dyddiad cau statudol ym mis Hydref ac y dylid ei gwblhau gan Swyddogion mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio ar gyfer ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor gyda'r amod y dylid cadarnhau fod yr adroddiad yn cyfeirio ar y Weinyddiaeth flaenorol.**

**CYNNIG GWEITHRED YCHWANEGOL: Gwahodd y Pennaeth Gwasnaeth (Adfywio Cymunedol a Datblygiad Economaidd) i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynnydd y cynllunio adfywio cymuned ar gyfer Amlwch fel anheddiad blaenoriaeth a enwir a ph'un a oes unrhyw gynlluniau ar y gweill ar gyfer Biwmares.**

**4. RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION – ARDAL SEIRIOL**

Cyflwynwyd ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Dysgu yn cynnwys canlyniad yr ymgynghoriad anstatudol ar foderneiddio ysgolion yn ardal Seiriol. Roedd yr adroddiad yn nodi elfennau canlynol y broses –

- Y cyd-destun yn cynnwys y prif yrwyr newid ar gyfer moderneiddio'r ddarpariaeth o addysg gynradd yn Ynys Môn sy'n sail i'r rhaglen moderneiddio ysgolion gyffredinol ac a fydd yn dylanwadu ar y penderfyniad o ran y ddarpariaeth orau ar gyfer ardal Seiriol (adran 2)
- Y broses ymgynghori a gynhaliwyd rhwng 19 Mehefin 2017 a 30 Gorffennaf 2017.
- Y sylwadau a'r ymatebion a gafwyd gan staff, llywodraethwyr a rhieni ysgolion yn ystod y cyfarfodydd ymgynghori yn yr ysgolion a effeithir arnynt – Ysgol Biwmares, Ysgol Llandegfan ac Ysgol Llangoed (adran 4)
- Y rhanddeiliaid eraill y cafodd y ddogfen ymgynghori ei chylchredeg iddynt (adran 5)
- Y rhestr estynedig o yrwyr newid y cafodd yr opsiynau eu sgorio allan o 10 yn eu herbyn (adran 9)
- Dadansoddiad manwl o 9 opsiwn yn cynnwys y rhai hynny a oedd wedi eu cynnwys yn y ddogfen ymgynghori yn ogystal ag eraill a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymarfer ymgynghori a'u sgorau (adran 9).
- Dadansoddiad cost o'r opsiynau a chrynodeb o'r sgorau ar ffurf tabl (adran 10)
- Argymhelliad ar y ffordd ymlaen o ran yr opsiwn/opsiynau a ffafrir er mwyn ffurfio sail i'r cam nesaf yn y broses ymgynghori (adran 11).

Adroddodd yr Aelod Portffolio Addysg mai'r ymgynghoriad ar ddarpariaeth addysg ysgol gynradd yn ardal Seiriol yw'r cam diweddaraf yn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ar Ynys Môn ac mae'n dilyn y penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith ar 21 Gorffennaf, 2016 i awdurdodi Swyddogion Addysg i barhau ag ymgynghoriad anstatudol ar y ddarpariaeth o addysg gynradd yn yr ardal ac i baratoi opsiynau i barhau â nhw. Mae nifer o opsiynau wedi eu hystyried ac wedi eu sgorio gyda 2 opsiwn yn cael yr un sgôr uchaf (79), sef –

Cau Ysgol Biwmares a rhoi'r dewis i rieni anfon eu plant i'r ddwy ysgol arall , ailwampio'r ddwy ac efallai ffederaleiddio (opsiwn 2), a

Cau Ysgol Biwmares a rhoi'r dewis i rieni anfon eu plant i'r ddwy ysgol arall ac i adolygu'r dalgylchoedd (opsiwn 3)

Dywedodd yr Aelod Portffolio ei fod wedi mynychu'r cyfarfodydd ymgynghori yn y tair ysgol a'i fod wedi treulio amser yn adlewyrchu ar yr holl ystyriaethau materol a'i fod wedi dod i'r casgliad anorfod bod y rhan fwyaf o'r opsiynau sy'n sgorio'n uchel yn erbyn y gyrwyr ar gyfer newid yn cynnwys cau Ysgol Biwmares. Er bod ystyriaeth wedi'i rhoi i ffyrdd o geisio osgoi'r opsiwn hwn, mae'r cyfuniad o ffactorau a'r sgorau terfynol yn dod i'r un canlyniad sef bod cau Ysgol Biwmares yn dod i'r amlwg yn yr opsiynau sy'n

DRAFT

bodloni'r angen ar gyfer newid. Er hynny, ychwanegodd yr Aelod Portffolio Addysg ei fod yn dal yn agored i opsiynau amgen ymarferol.

Mewn ymateb i gais am esboniad gan y Cadeirydd am ddilysrwydd y broses gan fod yr ymgynghoriad wedi rhedeg i gyfnod y gwyliau ysgol, dywedodd y Pennaeth Dysgu bod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ac y mae'r adroddiad yn seiliedig arno yn ymgynghoriad anffurfiol ac anstatudol h.y. ei fod yn ymgynghoriad nad oes yn rhaid i'r Awdurdod ei gynnal yn gyfreithiol ond sydd yn gam ychwanegol y mae'r Awdurdod wedi penderfynu ei gymryd yma, fel y mae wedi'i wneud ym mhob ardal arall wrth ymgynghori ar foderneiddio'r ddarpariaeth ysgolion cynradd, fel mater o arfer dda. Gan mai ymgynghoriad anffurfiol ac anstatudol a gynhaliwyd nid oes rhaid i'r broses ymgynghori gydymffurfio ag unrhyw ofynion cyfreithiol felly nid yw dilysrwydd a/neu gyfreithlondeb y broses yn fater sy'n codi. Mae'r Awdurdod yn edrych i gynnal proses ymgynghori anffurfiol o fewn cyfnod o 6 wythnos. Er i'r broses yn y sefyllfa hon bara tan ddiwedd Gorffennaf fe gynhaliwyd y cyfarfodydd ymgynghori yn cynnwys staff, llywodraethwyr a rhieni'r disgyblion yn y tair ysgol a'r holl weithgareddau ymgysylltu yn ystod mis Mehefin, cyn diwedd y tymor ysgol.

Aeth y Pennaeth Dysgu ymlaen i ddwyn sylw at nifer o ystyriaethau yn ogystal â'r prif benawdau y cyfeirir atynt uchod gan gynnwys yr isod –

- Cytunwyd a sefydlwyd y gyrwyr ar gyfer newid gan yr Awdurdod ers 2012 ac fe'u gweithredwyd yn gyson ym mhob un o'r ardaloedd y mae'r Awdurdod wedi ymgynghori â nhw ynghylch ailgyflunio'r ddarpariaeth ysgolion cynradd. Yn ogystal, wrth wneud achos busnes am gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion newydd a / neu addasiadau, mae'n rhaid i'r Awdurdod ddangos sut y bydd y cynigion yn cyfrannu at bethau eraill - effeithlonrwydd ynni, amser di-gyswllt i athrawon a llai o gostau oherwydd gwaith atgyweirio a chynnal a chadw sydd wedi cronni.
- Daeth un ar ddeg o syniadau ar gyfer opsiynau posib i'r amlwg o'r cyfarfodydd ymgynghori yn yr ysgolion ac o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r rhain wedi'u rhestru ar dudalen 6 y ddogfen ar ganlyniadau'r ymgynghoriad sydd hefyd yn nodi a roddwyd ystyriaeth bellach iddynt ai peidio. Mae'r rhain yn ychwanegol at yr opsiynau gwreiddiol a restrwyd yn y ddogfen ymgynghori. 'Roedd ugain o opsiynau ar gael yn dilyn y broses hon ac fe'u haseswyd yn erbyn y meini prawf a sefydlwyd.
- 'Roedd y ddogfen ymgynghori anstatudol hefyd yn ystyried yr angen posib am dai ychwanegol yn ardal Seiriol yn sgil y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'r goblygiadau ar gyfer niferoedd disgyblion. Yn seiliedig ar y data yn y CDLl ar y Cyd ynglŷn â datblygiadau tai yn yr ardal a'r nifer o blant oed ysgol gynradd ar gyfartaledd ym mhob aelwyd (yn ôl fformiwla safonol), mae'r tabl ar dudalen 75 yr adroddiad yn dangos y byddai'n rhaid i Ysgol Llandegfan dderbyn 6 disgybl ychwanegol; 14 yn Ysgol Biwmares ac 8 yn Ysgol Llangoed. Wrth gymryd i ystyriaeth y lleoedd gwag yn yr ysgolion, gellir gweld bod lle ar gael yn Ysgol Biwmares ac Ysgol Llangoed ond y bydd Ysgol Llandegfan yn parhau i fod yn llawn dros y blynyddoedd i ddod. Yn seiliedig ar y fformiwla, byddai angen adeiladu 550 o dai newydd yn yr ardal i sicrhau y byddai Ysgol Biwmares yn llawn.
- Yn ogystal â sylwadau a wnaed yn uniongyrchol yn y cyfarfodydd ymgynghori, derbyniwyd gohebiaeth gan wahanol Benaethiaid, Cadeiryddion Cyrff Llywodraethu a / neu Lywodraethwyr, Cynghorau Tref / Cymuned a Phwyllgorau Cylchoedd Chwarae sy'n gysylltiedig â'r tair ysgol, yn ogystal â'r 3 Aelod Etholedig ar gyfer ardal Seiriol (roedd y sylwadau ynghlwm wrth yr adroddiad ar y canlyniadau ymgynghori). Mae'r Cynghorwyr Sir ar gyfer ardal Seiriol wedi tynnu sylw at yr angen am gynllun corfforaethol cydlynol i'r cyfan o'r gornel de-ddwyreiniol hon o'r Ynys fel ardal sydd wedi bod yn prysur golli gwasanaethau ac maent yn pwysleisio pwysigrwydd cadw'r tair ysgol.

- O'r ymarfer sgorio, mae’r ddau opsiwn sy’n sgorio uchaf (79 - opsiynau 2 a 3) yn golygu cau Ysgol Biwmares; mae'r nesaf uchaf (78 - opsiwn 16) hefyd yn cyfeirio at gau Ysgol Biwmares. O'r 9 opsiwn sy’n sgorio uchaf, mae 7 ohonynt yn golygu cau Ysgol Biwmares.

Gwahoddwyd cynrychiolwyr Ysgol Biwmares i annerch y cyfarfod fel yr ysgol yr oedd y ddau opsiwn a argymhellwyd yn cael yr effaith uniongyrchol fwyaf arni.

Cyfeiriodd Emma Taylor, Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Biwmares at ohebiaeth a gylchredodd hi ar 29 Medi, a gododd bryderon ynghylch y materion a nodir isod ac ymhelaethodd hi arnynt yn y cyfarfod –

- Dim digon o amser i ddadansoddi'r adroddiad ar y canlyniadau ymgynghori, yn enwedig o ystyried ei oblygiadau pellgyrhaeddol ar gyfer addysg gynradd yn yr ardal;
- Mae'r opsiynau a argymhellir i gau Ysgol Biwmares yn tynnu’n groes i’r cyngor gan Lywodraeth Cymru y dylai awdurdodau lleol ystyried pob dewis arall cyn cau ysgolion gwledig.
- Anghysondebau yn y gyrwyr ar gyfer newid a ddefnyddir yn yr ymarfer sgorio.
- Mae’r mecanwaith sgorio yn broblemus o ran y rhesymeg dros ddewis yr 11 o yrwyr a restrir yn ogystal â'r rhesymeg o roi pwys cyfartal ar bob un ohonynt.
- Camgymeriadau ac anghysonderau yn y sgorau a ddyfarnwyd.

Dywedodd Rhian Jones, Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer ymateb i’r adroddiad, ei bod yn dymuno dwyn sylw at y materion a ganlyn –

- Er yn cydnabod bod llawer iawn o waith wedi ei wneud ar yr ymgynghoriad a'r ddogfen a gododd ohono, ystyriwyd bod yr adroddiad ar y canlyniad ymgynghori yn ddiffygiol gan ei fod yn seiliedig ar broses nad oedd yn dilyn y Côd Trefniadaeth Ysgolion na'r canllawiau y mae'n eu gosod ar gyfer cynnal ymgynghoriad o'r fath a'r ffactorau manwl y mae'n rhaid eu hystyried, gan gynnwys cael gwared ar dir.  Mae Ysgol Biwmares ar safle allweddol a chynigir gwneud defnydd ychwanegol ohono fel safle ar gyfer tai gofal ychwanegol hefyd, sef mater ar wahân a drafodir yn y cyfarfod hwn. Dylai'r gymuned fod wedi cael gwybod am y bwriadau ar gyfer y safle yn gyffredinol ac ni ddylid gwneud unrhyw benderfyniad ar sail un rhan o'r safle heb ystyried ac ymgynghori ar y defnydd o'r safle yn ei gyfanrwydd.
- Mae Band B yn y Cynllun Amlinellol Strategol drafft yn cyfeirio at 3 opsiwn ar gyfer ardal Seiriol, gan gynnwys cau ysgol gynradd ac adnewyddu un arall - sy'n ei gwneud yn anodd osgoi’r argraff bod y penderfyniad i gau Ysgol Biwmares wedi'i wneud yn barod.
- Mae'r ddogfen ymgynghori yn cyfeirio at gostau gwaith atgyweirio a chynnal a chadw sydd wedi cronni yn Ysgol Biwmares, sef gwerth cyfanswm o £ 971k ac sy'n ffactor a adlewyrchir yn yr ymarfer sgorio. Ni roddir dadansoddiad o'r ffigwr hwn ac ni chrybwyllir y ffaith bod £190k yn gostau posib gyda'r gweddill yn gostau nad oedd raid eu talu i gyd ar unwaith.

Mynegodd y Cynghorwyr Frank Carr ac Alwyn Rowlands bryderon am yr effaith y byddai cau Ysgol Biwmares yn ei chael ar ddyfodol y dref fel cymuned hyfyw a ffyniannus a phwysleisiwyd y gwneid pob ymdrech i wrthsefyll unrhyw benderfyniad a gymerir i gau'r ysgol.

Anerchwyd y Pwyllgor gan y Cynghorwyr Carwyn Jones, Lewis Davies ac Alun Roberts (a oedd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol) fel Aelodau Lleol a, chyda’i gilydd, aethant ati i godi materion mewn perthynas â chostau addysg y pen, sef £4,356 yn Ardal Seiriol yn ôl adroddiadau - sy’n cymharu'n ffafriol gyda chyfartaledd Ynys Môn (£ 4,869) ac sydd ond ychydig bach yn uwch na chyfartaledd Cymru (£ 4,226); cymhlethdod a

DRAFT

anghysondeb canfyddedig y system sgorio a ddefnyddiwyd yn yr ymarfer hwn; yr angen am gynllun adfywio corfforaethol ar gyfer cornel de-ddwyreiniol yr Ynys; effaith y posibilrwydd o golli ysgol ar ddemograffeg Biwmares fel tref a dyfodol ei phoblogaeth o bobl ifanc; y gostyngiad dros y blynyddoedd yn niferoedd y disgyblion yn Ysgol Biwmares a ph’un a oedd hyn wedi ei gynllunio; y posibilrwydd o gynnydd yn niferoedd y disgyblion yn y dyfodol gyda dyfodiad datblygiadau economaidd mawr ar yr Ynys, gan gynnwys Wylfa Newydd; y pwys a briodolir i faint y gefnogaeth ar gyfer Ysgol Biwmares; addasrwydd a photensial safle Ysgol Biwmares fel safle y byddai modd ei rannu ar gyfer darparu tai cymdeithasol y mae gwir angen amdanynt; yr angen i gymryd agwedd llawer ehangach a manylach at ddyfodol addysg gynradd yn yr ardal ar y cyd â dyfodol economaidd yr ardal ac i ganiatáu llawer mwy o amser i'r broses honno ddigwydd; absenoldeb unrhyw opsiwn cadarnhaol ar ffurf ysgol ardal newydd.

Gofynnodd y rheini a siaradodd o blaid cadw Ysgol Biwmares i'r Pwyllgor wrthod argymhellion yr adroddiad a chaniatáu mwy o amser i'r ysgol a'r gymuned ddatblygu opsiynau amgen.

Ailadroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg nad oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud a’i fod ef yn parhau i fod yn agored i gynigion newydd er na allai weld bod unrhyw ddewisiadau amgen o'r fath wedi'u cyflwyno hyd yn hyn. Dywedodd fod dewis rhieni yn ffactor pwysig ac yn achos Ysgol Biwmares, dim ond 37 o ddisgyblion dalgylch yr ysgol sy'n mynychu'r ysgol gyda rhieni 34 o blant yn dewis anfon eu plant i ysgolion eraill. Mae'r gost fesul disgybl yn Ysgol Biwmares yn uwch sydd yn golygu felly bod darpariaeth addysg yn yr ysgol yn ddrutach nag yn y ddwy ysgol arall. Rhoddwyd ystyriaeth i'r ardaloedd ar yr Ynys lle byddai modd  sefydlu ysgol ardal newydd; casglwyd nad oedd yr opsiwn hwn yn addas ar gyfer ardal Seiriol.

Wrth ymateb i'r pwyntiau a godwyd amlygodd ac ailbwysleisiodd y Pennaeth Dysgu –

- Bod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ymgynghoriad dewisol, anffurfiol ac anstatudol sy'n golygu nad yw'r cwestiwn o ran cyfreithlondeb a phriodoldeb y broses yn berthnasol. Rhoddodd yr ymgynghoriad gyfle i'r Awdurdod ymgysylltu'n anffurfiol â'r gymuned a chael barn a safbwyntiau fel man cychwyn cyn adrodd i'r Pwyllgor Gwaith ar yr angen i fwrw ymlaen i gam ymgynghori ffurfiol a statudol ai peidio. Os penderfynir cynnal proses ymgynghori ffurfiol a statudol, yna gwneir gwaith llawer manylach fel rhan o'r broses yn unol â'r canllawiau statudol.
- Wrth lunio Cynllun Amlinellol Strategol Band B, rhaid i'r Awdurdod roi gwybod i Lywodraeth Cymru am yr ardaloedd sydd i'w cynnwys ym Mand B yn ogystal ag amcangyfrif o swm yr arian y mae'n ymgeisio amdano. Er mwyn gallu gwneud hyn mae'n rhaid i'r Awdurdod gael syniad o'r posibiliadau o ran moderneiddio'r ysgolion yn yr ardaloedd ym Mand B ond nid yw'n golygu bod unrhyw benderfyniadau pendant wedi'u gwneud ymlaen llaw, dim ond bod yn rhaid i'r Awdurdod wneud achos busnes am gyllid ar gyfer Band B yn seiliedig ar yr ardaloedd a gynhwysir ym Mand B. Rhaid gwneud hyn cyn cynnal unrhyw ymgynghoriad.
- Rhaid ystyried costau. Mae'r gost fesul disgybl yn Ysgol Biwmares yn 50% yn uwch na’r gost yn Ysgol Llandegfan er enghraifft. Mae ceisio parhau i gyfiawnhau cost o'r fath yn golygu parhau â sefyllfa lle nad yw plant ysgol gynradd Ynys Môn yn derbyn cyfleoedd addysgol cyfartal - sy’n egwyddor allweddol yn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion. Mae'r strategaeth o'r cychwyn wedi ceisio lleihau'r gwahaniaeth yn y costau fesul disgybl. Felly, mae'n rhaid cynnal trafodaethau gyda'r cymunedau a chanddynt ysgolion bach oherwydd bod ysgolion llai yn ddrutach i'w cynnal.
- Bod yna waith atgyweirio a chynnal a chadw y mae angen ei wneud ar ysgolion yr Ynys sy’n werth dros £15m. Bu methiant hanesyddol dros ddegawdau i fuddsoddi'n ddigonol mewn adeiladau ysgol, gan gynnwys nifer o adeiladau a oedd yn strwythurau modern yn



DRAFT

y 19eg ganrif ond na ellir ystyried eu bod yn fodern ar gyfer yr 21ain ganrif. Cyfeiriwyd at y costau atgyweirio a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig ag Ysgol Biwmares; amcangyfrifon yw’r rhain sy’n seiliedig ar raglenni hirsefydlog Gwasanaeth Eiddo’r Cyngor. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai’r gost o sicrhau bod Ysgol Biwmares yn cyrraedd safonau a ddisgwylir o ysgol fodren ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yn fwy na'r amcangyfrifon hyn.

- Mae ystadegau a ddarparwyd gan Horizon yn awgrymu na fydd paratoadau ar gyfer Wylfa Newydd ond yn dod â 220 o blant ychwanegol i'r Ynys. Pe bai pob un o'r 220 yn ail-leoli i Fiwmares yna byddai hynny'n golygu bod yr ysgol yn llawn. Fodd bynnag, ni ellir dibynnu ar y posibilrwydd hwn wrth ystyried dyfodol Ysgol Biwmares. Fel y crybwyllwyd, byddai angen adeiladu 550 o gartrefi ychwanegol yn yr ardal i sicrhau bod yr ysgol yn llawn.
- Bod 37 o ddisgyblion oed ysgol statudol yn Ysgol Biwmares ar adeg yr ymgynghoriad. Fel y nodir yn yr adroddiad gwreiddiol rhagwelir y byddai 40-50 o ddisgyblion yno hyd at 2022.Felly, nid yw'r rhagolygon o ran nifer y genedigaethau yn yr ardal yn ffafriol ar hyn o bryd.
- Mae safle'r ysgol yn mesur o gwmpas 5 erw ac ystyrir nad yw hynny’n ddigon mawr ar gyfer adeiladu ysgol unllawr ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, gan bod angen oddeutu 6.5 erw fel arferol i sefydliad o'r fath.
- Er bod yr Awdurdod yn cydymdeimlo mewn perthynas â’r gostyngiad yn niferoedd y disgyblion dros y blynyddoedd diwethaf yn Ysgol Biwmares, nid yw hynny wedi digwydd o ganlyniad i unrhyw strategaeth fwriadol. Mae unrhyw awgrym o'r fath yn annerbyniol ac mae'n awgrymu y byddai swyddogion yn barod i aberthu addysg plant i gyflawni amcan penodol ac nid yw hynny’n wir.
- Mae dewis rhieni yn ystyriaeth bwysig. Y llynedd, roedd 34 o blant o'r dalgylch yn mynychu ysgolion heblaw Ysgol Biwmares. Mae'r awdurdod hefyd wedi ystyried y tebygolrwydd na fyddai rhieni yn dewis gwneud y daith yn ôl i Fiwmares neu Langoed pe byddai Ysgol Llandegfan yn cau, neu pe bai ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yng nghanol y tri dalgylch.

  Bod y gyrwyr y mae'r system sgorio wedi'u seilio arnynt wedi bod yn rhan o'r broses o'r cychwyn cyntaf; mae'r fethodoleg ar gyfer sgorio yn arfer a ddatblygwyd gan yr Awdurdod ers 2012. Mae Llywodraeth Cymru yn craffu ar y system sgorio a sut y gweithredir hi bob tro y caiff proses ad-drefnu addysg ei rhoi ar waith a chyflwynir dogfennau i'w harchwilio a'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru . Ni chwestiyniwyd cywirdeb dull gweithredu’r awdurdod ar gyfer unrhyw un o'r prosesau y mae wedi eu cynnal hyd yn hyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ei bedwaredd adolygiad Gateway gyda hyn a bydd hynny’n cynnwys cael ei holi ynghylch y prosesau ar gyfer ei strategaeth foderneiddio. Ystyrir bod y ffordd y mae'r Awdurdod yn Ynys Môn yn gweithredu yn arfer dda, yn arbennig wrth gynnal proses ymgynghori anffurfiol ychwanegol.

Rhoddodd y Prif Weithredwr ei safbwynt ar y sefyllfa a gwnaeth y pwyntiau canlynol –

- Er bod yr Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd addysg ar lefel leol, mae'n rhaid iddo barhau i fynd i'r afael â’r mater lleoedd gwag fel cost na all ei fforddio yn y cyd-destun ariannol sydd ohoni ac fel mater y bydd yn parhau i gael ei herio arno gan Estyn.
- Mae’r dull sgorio wedi bod yn gyson ers dechrau'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion.
- Dylai'r Bwrdd Llywodraethwyr hefyd fod yn gyfrifol am herio Ysgol Biwmares ynghylch mynd i'r afael â'r gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n dewis cael eu haddysgu yn yr ysgol.
- Yn yr ardaloedd hynny lle sefydlwyd ysgol newydd fel rhan o'r rhaglen foderneiddio, nid oedd ysgol newydd yn cael ei gweld fel datrysiad cadarnhaol pan gynhaliwyd yr ymgynghoriad. Mae'r opsiynau a gynigir bellach ar gyfer ardal Seiriol yn cynnig

DRAFT

buddsoddiad a manteision sylweddol i ddwy o ysgolion cynradd yr ardal, a hynny gyda'r nod o sicrhau darpariaeth addysg gynaliadwy ar gyfer yr ardal yn y blynyddoedd i ddod.

- Y gallai ardal dde-ddwyreiniol yr Ynys, sy'n cynnwys ward Seiriol, elwa o gynllun corfforaethol penodol o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i gynllun o'r fath lunio strategaeth ar gyfer codi niferoedd y disgyblion o 40 i 150 er mwyn i'r ardal gael ysgol a ddiffinnir fel un hyfyw; mae hynny'n her sylweddol.
- Mae'r ffaith bod 34 o ddisgyblion o ddalgylch Biwmares a 29 o Langoed yn mynychu ysgolion yn rhywle arall yn ystyriaeth allweddol y mae'n rhaid rhoi pwys arni.
- Er nad cost y ddarpariaeth yw'r prif reswm dros geisio moderneiddio addysg gynradd ar yr Ynys, mae'n rhaid ystyried sut y defnyddir adnoddau. Mae'r costau yn Ysgol Biwmares yn £55k yn uwch na'r rheini mewn ysgolion eraill sy'n golygu bod llai o adnoddau ar gael i ddisgyblion ysgolion eraill. Mae hynny'n groes i'r egwyddor o gyfle cyfartal.
- Mae codi a chynnal safonau addysgol yn yrrwr allweddol yn y rhaglen moderneiddio ysgolion. Mae safonau yn y Cyfnod Sylfaen ac yn CA2 yn Ysgol Biwmares wedi bod yn amrywio o gymharu â'r chwarteli am gyfnod o 3 blynedd neu fwy.
- Rhaid i'r Awdurdod sicrhau bod capasiti arweinyddiaeth digonol a phriodol yn ysgolion yr Ynys ac mae hynny'n parhau i fod yn her.
- Dylai'r Pwyllgor, wrth ddod i argymhelliad, ystyried y mater yng nghyd-destun yr Ynys yn gyffredinol; mae'r broses anstatudol anffurfiol wedi ystyried nifer o opsiynau, gan gynnwys y rheini sydd wedi deillio o'r gymuned, yn ogystal â'r ystod o ffactorau sy'n gysylltiedig ag addysg ac sy'n gyffredin i'r rhaglen foderneiddio fel y gweithredir hi ledled yr Ynys.

Wrth iddo ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd ar lafar ac ar bapur gwnaed y pwyntiau a ganlyn gan y Pwyllgor –

- Nododd y Pwyllgor fod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn broses anffurfiol a oedd yn caniatáu i'r Awdurdod glywed barn trigolion yr ardal. 'Roedd y Pwyllgor yn deall hefyd bod angen i'r Awdurdod fod wedi llunio opsiynau cyn i'r ymgynghoriad ddigwydd er mwyn sefydlu faint o arian y gall y bod ei angen arno wrth gyflwyno'r Cynllun Amlinellol Strategol Band B ac achos busnes cysylltiedig i Lywodraeth Cymru,
- Nododd y Pwyllgor fod cost addysg y pen yn Ysgol Biwmares yn uchel ac yn gymesur ag ysgol sydd â llawer iawn mwy o ddisgyblion. Nododd y Pwyllgor ymhellach fod darpariaeth addysg yn Ysgol Biwmares yn ddrud ac felly'n anghynaliadwy yn y tymor hir.
- 'Roedd y Pwyllgor yn derbyn pwysigrwydd sicrhau chwarae teg ar gyfer pob ysgol gynradd ar yr Ynys a chyfleoedd addysgol cyfartal ar gyfer plant oed cynradd ar yr Ynys.
- Cydnabu'r Pwyllgor nad ysgolion bach yw'r rhai mwyaf addas ar gyfer cynnig safonau ac arferion addysg modern ac 'roedd yn cefnogi'r Awdurdod yn ei ddymuniad i sicrhau bod plant yr Ynys yn cael y safon addysg orau bosib i fedru cystadlu'n llwyddiannus yn y farchnad swyddi ehangach o fewn amgylchedd sy'n darparu cyfleusterau cyfoes.
- 'Roedd y Pwyllgor yn derbyn nad yw ymrwymo gwariant i gynnal hen adeiladau ysgol yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau prin.
- Nododd y Pwyllgor fod y gostyngiad yn nifer y disgyblion yn Ysgol Biwmares yn ffactor arwyddocaol sy'n anodd ei esbonio. Nododd y Pwyllgor ymhellach bod 34 o blant y dalgylch ar hyn o bryd yn mynychu ysgol mewn mannau eraill ac 'roedd o'r farn bod hwn hefyd yn ffactor arwyddocaol.
- Er ei fod yn cydnabod ac yn cydymdeimlo â chryfder y teimladau yng nghymuned Biwmares mewn perthynas â'r opsiwn o gau ysgol y dref - opsiwn yr oedd y Pwyllgor yn ystyried ei fod yn un anodd iawn - roedd mwyafrif y Pwyllgor, am y rhesymau uchod, o'r farn nad oes modd cynnal pob un o'r tair ysgol ac felly nid yw cynnal y status quo yn opsiwn.



DRAFT

Cynigiodd y Cynghorydd Richard O. Jones fod y Pwyllgor yn derbyn y dewisiadau a argymhellir yn yr adroddiad i'w hanfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Richard Griffiths.

Cynigiodd y Cynghorydd Shaun Redmond welliant, sef y dylid rhoi ystyriaeth bellach i opsiwn ychwanegol, sef ysgol newydd i gymryd lle Ysgol Biwmares, Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan; yr ysgol newydd i'w lleoli ar y safle lle mae Ysgol Biwmares ar hyn o bryd ond ar ôl-troed llai fel bod modd ystyried cydleoli tai fforddiadwy ar yr un safle. Y rhesymeg y tu ôl i'r cynnig oedd diogelu gwerth, bwrlwm a ffyniant Biwmares i'r dyfodol fel tref uchel ei pharch ar yr Ynys. Ni chafwyd eilydd i'r cynnig.

Cynigiodd y Cynghorydd Alun Roberts welliant pellach, sef gofyn i'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes ailystyried yr opsiynau yng ngoleuni'r drafodaeth yn y pwyllgor hwn ac adrodd yn ōl i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Aled M. Jones.

Gwrthodwyd yr ail welliant gan y Pwyllgor a chafodd y cynnig gwreiddiol ei gario gan y mwyafrif. Ymataliodd y Cynghorydd Shaun Redmond ei bleidlais.

**Penderfynwyd bod y Pwyllgor yn –**

- **Derbyn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad anstatudol yn ardal Seiriol ac yn argymell yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.**
- **Cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad mewn perthynas â'r opsiynau a ffafrir, sef cynnal ymgynghoriad statudol ar y canlynol -**

  **Opsiwn 2 - Cau Ysgol Biwmares a rhoi'r dewis i'r rhieni anfon eu plant i'r ddwy ysgol arall, adnewyddu'r ddwy ysgol a'u ffederaleiddio o bosib;**
  **Opsiwn 3 - Cau Ysgol Biwmares a rhoi'r dewis i'r rhieni anfon eu plant i'r ddwy ysgol arall ac adolygu'r dalgylchoedd.**

  **NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU PELLACH**

**5. TAI GOFAL YCHWANEGOL - ARDAL SEIRIOL**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn amlinellu cynnig i ymgysylltu â chymuned Seiriol ynghylch datblygu tai gofal ychwanegol yn yr ardal.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol bod elfen allweddol o'r Rhaglen Trawsnewid i Oedolion yn ymwneud ag ailgyflunio darpariaeth llety a symud i ffwrdd o ofal preswyl traddodiadol tuag at fodel tai Gofal Ychwanegol. Ym mis Hydref, 2015, gwnaed ymrwymiad i ystyried opsiynau ar gyfer safle priodol yn Ne Ynys Môn i ddatblygu tai gofal ychwanegol, a nodwyd ardal Seiriol fel y lleoliad a ffafrir pe bai safleoedd ar gael yn yr ardal honno. Yn ystod 2016 comisiynwyd arolwg o safleoedd posibl trwy Wasanaethau Eiddo'r Cyngor a oedd yn ystyried y ffactorau a restrir yn yr adroddiad. Mae'r ffactorau hynny wedi dylanwadu ar y broses ar gyfer dewis safle ac adroddir ar y broses honno yn Atodiad A. 'Roedd yr adroddiad yn nodi mai'r dewis a ffafrir yw datblygu Tai Gofal Ychwanegol ar safle'r ysgol gynradd gyfredol, naill ai i'w gydleoli gyda'r ysgol er mwyn sicrhau defnydd effeithiol o'r tir, neu fel arall, fel yr unig denant. Aseswyd dau leoliad o fewn y safle, sef lleoliad y ganolfan ddydd sydd bellach yn wag, a'r llall y tu cefn i'r ysgol. Mae'r ail yn darparu ar gyfer gwneud gwell defnydd o'r ardal a allai, o bosib, gynorthwyo i sicrhau bod dyluniad yr adeilad yn gyson â statws rhestredig yr ysgol ac a allai ganiatáu rhannu cyfleusterau arlwyo gyda'r ysgol.

Dywedodd y Cynghorydd Lewis Davies, fel Aelod Lleol, y byddai'r safle yn fwy addas i dai cymdeithasol sydd yn brin ym Miwmares. Mae’r bwriad i ddatblygu cyfleuster Gofal Ychwanegol ar y safle hwn yn cynyddu’r demograffig pobl hŷn ym Miwmares ac mae hynny, ynghyd â’r posibilrwydd o gau'r ysgol gynradd, yn atgyfnerthu’r argraff o’r dref fel lle i bobl hŷn yn bennaf. Pwysleisiodd y Cynghorydd Davies bwysigrwydd cael cynllun corfforaethol ar gyfer yr ardal i fynd i'r afael â’r ystyriaeth hon a’r ystyriaethau eraill sy'n berthnasol i ddyfodol yr ardal a'i ffyniant economaidd a'i hyfywedd.

Eglurodd y Cadeirydd y bydd cyfleoedd i wneud sylwadau ar y cynigion yn fanwl yn ystod y cyfnod ymgysylltu. Gofynnodd am adroddiad ar ganlyniad yr ymgysylltiad â'r ardal leol ar gyfer y Pwyllgor hwn cyn cyflwyno'r atborth i'r Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd bod y Pwyllgor yn cefnogi cynnal cyfnod o ymgysylltu’n lleol yn ardal Seiriol yn ystod mis Tachwedd, 2017 ynglŷn â’r materion canlynol:**

- **Datblygu darpariaeth Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol i ddarparu lleiafswm o 39 o fflatiau hunangynhaliol yn unol â’r modelau darpariaeth a gymeradwywyd yn genedlaethol**
- **Mai’r lleoliad a ffafrir ar gyfer y datblygiad hwn yw safle presennol Ysgol Biwmares naill ai fel cyfleuster wedi’i leoli ar y cyd ag ysgol wedi’i haddasu, neu fel y prif ddefnydd ar gyfer y tir hwn**
- **Bod y Cyngor yn mynd ar ôl opsiynau i ariannu’r datblygiad trwy’r Cyfrif Refeniw Tai fel bod y datblygiad yn dod yn stoc tai cyngor ychwanegol o fewn y sir gan ddarparu llety hollbwysig i bobl hŷn.**

**CAM GWEITHREDU YCHWANEGOL A GYNIGIR: Y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion i gyflwyno crynodeb o’r atborth o’r broses ymgysylltu i’r Pwyllgor hwn cyn y caiff ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.**

**Y Cynghorydd Aled M. Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Sgrwtini Corfforaethol / Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 31.10.17 / 6.11.17 |
| **Pwnc:** | Cynllun Ymgynghori Cyllideb 2018/19 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | I ennyn cytundeb i'r cynllun atodol |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Aled M. Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Dafydd Rh. Thomas |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Scott Rowley |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Gethin Morgan<br>752111<br>gethinmorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Dd/B |

**1 – Argymhelliad/ion**

1.1. Mae'r atodol yn cynnig disgrifiad lefel uchel o'r cynllun ymgynghori arfaethedig ar gyfer y gyllideb i'w wireddu yn ystod y cyfnod – wythnos yn cychwyn Tachwedd 6ed hyd at Rhagfyr 29ain.

1.2. Mae'n cyfleu dull weithredu traws sector gyda'r bwriad o gyflwyno sylwadau'r dinesydd drwy –

a. Y Wasg
b. Cynghorau Tref a Chymuned
c. Gweithdai Rhanddeiliaid
d. Y We
e. Cyfryngau Cymdeithasol
f. Panel Dinasyddion
g. Gweithdai Plant a Phobl Ifanc

1.3. Gofynnir i'r Pwyllgor archwilio'r cynllun arfaethedig fel y gellid gwella'r cynlluniau ymgynghori cyllidebol i'r dyfodol ac hefyd uchafu ymwybyddiaeth corfforaethol o'r gwaith disgwyliedig dros y cyfnod a nodir drwy gytuno I'r cynllun a nodir.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

2.1 Mae'r cynllun hwn yn cael ei gynnig fel cynllun ymgynghori ar faterion cyllidol sydd yn cyd-fynd a datblygaid y Cyngor dros y blynyddoedd I ddod ac sy'n cael ei amlygu yng nghynllun newydd y Cyngor a fabwysiadwyd ddiwedd mis Medi eleni.

| |
|---|
| 2.2 Mae'r ymgynghoriad yma yn cyd-fynd a'r nod o '*gynnwys a pharhau i ymgysylltu gyda thrigolion Ynys Mon ynghylch y ffordd y gwneir penderfyniadau*' |
| |

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**4.1** Oes ym marn y Pwyllgor unrhyw randdeiliad sydd angen eu cynnwys sydd ddim ar y rhestr presennol?

**4.2** Pa ddatblygiad o'r broses eleni sydd yn welliant ar y broses llynedd?

**4.3** Oes ym marn y Pwyllgor ychwanegiadau penodol sydd ei angen I'r cynllun yn ei gyfanrwydd?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

Mae'r cynllun atodol wedi ei drafod yng nghyfarfod diweddar y Bwrdd Ymgysylltu & Ymgynghori (12.9.17) a roddodd yr arweiniad fod angen gwell presenoldeb a thrafodaeth gyda partneriaid fel rhan o'r cynllun ymgynghori eleni.

Yn ogystal, cyflwynwyd y cynllun i sesiwn briffio ar gyfer holl aelodau'r Cyngor Sir ar y 5ed o Hydref.

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Mae'r cynllun wedi ei lunio i sicrhau mewnbwn ac ymateb cynifer o drigolion a phosib o wahanol ardaloedd a chefndiroedd. Bydd asesiadau effaith parthed y cynigion penodol yn cael ei gysidro fel rhan o drafodaeth ehangach y broses. |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| Bydd oblygiadau ariannol gwireddu'r cynllun hwn yn fychan iawn. Adnodd ac amser staff fydd ei angen i'w wireddu gydag ychydig o wariant refeniw yn cael ei ragweld ar gynnal paneli a trafodaethau gyda trigolion penodol. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Atodiad A – Cynllun Ymgynghori / Cyfathrebu Cynnigion Cyllidol Cyngor Sir Ynys Mon 2018/19 (Rhan 2) |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Cynllun y Cyngor 2017-2022 |

**CYNLLUN YMGYNGHORI / CYFATHREBU –**

**CYNNIGION CYLLIDEBOL CYNGOR SIR YNYS MÔN 2018/19 – RHAN 2**

Pwrpas y cynllun yma yw cydnabod y meysydd o waith fydd ei angen ar y Cyngor i wireddu’r dyhead o ymgynghori’n eang a thrylwyr, fel bod cynnig terfynol y Pwyllgor Gwaith o gyllideb 2018/19 i’r Cyngor ym mis Chwefror 2018 yn cael ei wneud gyda’r dealltwriaeth o safbwyntiau gwahanol a cydnabyddiaeth o’r effaith, y cyfleoedd a’r risgiau sydd yn bodoli.

Mae’r cynllun yma yn dilyn gwireddiad Rhan 1 oedd yn cychwyn y stori (ar ddiwedd yr haf) ac yn rhoi’r brasamcan i’n dinasyddion / partneriaid o’r heriadau sydd yn ein gwynebu fel corff cyhoeddus.

Mae’r amserlen canlynol yn cwmpasu’r dyddiadau Tachwedd y 7fed - Rhagfyr 29ain.



**CYNLLUN YMGYNGHORI / CYFATHREBU –**

## CYNNIGION CYLLIDEBOL CYNGOR SIR YNYS MÔN 2018/19 – RHAN 2

Pwrpas y cynllun yma yw cydnabod y meysydd o waith fydd ei angen ar y Cyngor i wireddu’r dyhead o ymgynghori’n eang a thrylwyr, fel bod cynnig terfynol y Pwyllgor Gwaith o gyllideb 2018/19 i’r Cyngor ym mis Chwefror 2018 yn cael ei wneud gyda’r dealltwriaeth o safbwyntiau gwahanol a cydnabyddiaeth o’r effaith, y cyfleoedd a’r risgiau sydd yn bodoli.

Mae’r cynllun yma yn dilyn gwireddiad Rhan 1 oedd yn cychwyn y stori (ar ddiwedd yr haf) ac yn rhoi’r brasamcan i’n dinasyddion / partneriaid o’r heriadau sydd yn ein gwynebu fel corff cyhoeddus.

Mae’r amserlen canlynol yn cwmpasu’r dyddiadau Tachwedd y 7fed - Rhagfyr 29ain.

| Cyfeirnod | Dyddiad / Cyfnod | Digwyddiadau / Ymgyrchoedd a Phwrpas | Arwain | Cymorth | Er Gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Medi | Cyfarfod Pwyllgor Gwaith i dderbyn y MTFP a rhoi sel bendith i’r ffordd ymlaen am y 3 blynedd nesa’ | Cyllid | | UDA / Penaethiaid |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cyllid / Tim Rheoli Perfformiad a Busnes | |
| B | 31.10.17 | Cyfarfod Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol fydd yn craffu ar effaith / meysydd o bryder sydd wedi'i cydnabod felly yn y gweithdai mis Medi / Hydref ac hefyd cysidro'r cynllun ymgynghori. | Rheolwr Sgrwtini Corfforaethol | Penaethiaid | Cyllid / Deilyddion Portffolio |
| C | 6.11.17 | Cyfarfod Pwyllgor Gwaith i gynnig arbedion arfaethedig 2018/19 i bwrpas ymgynghori (gan ddeall effeithiau'r newidiadau). | Cyllid | Tim Rheoli Perfformiad a Busnes | UDA a Phenaethaid |
| Ch | Diwedd Tach' | Cyfarfod Grwp Rhanddeiliaid Cynghorau Tref a Chymuned i drafod cyfleoedd ac oblygiadau y cynnigion posib. | Arweinydd | Cyllid / Tim Rheoli Perfformiad a Busnes | J Huw Jones Penaethiaid |
| D | I'w bennu | *****Gweithdy Rhanddeiliaid yn y Siambr / YB1 i ennyn deallusrwydd a thrafodaeth o'r cyfleoedd a risgiau cynnigion arfaethedig 2018/19***** | Rheolwr Cynllunio Busnes a Pherfformiad | Tim y Wasg Uwch Gyfrifydd Cyllid Arweinydd a Phrif Weithredwr | Penaethiaid |
| **Ymgyrch hyrwyddo'r arbedion yn yr 'arena' cyhoeddus drwy amryw o sianeli gwahanol…….** | | | | | |
| DD | 31.10.17 | Sesiwn briffio i'r Wasg ynglyn a chynnigion cychwynol cyllideb 2018/19. Codi ymwybyddiaeth y darllenwyr a cadw'n dynn i linellau corfforaethol o | Swyddog y Wasg | | Penaethiaid a Staff |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | gyfathrebu. *Allbwn fydd erthyglau yn y wasg traddodiadol / ar y we ac o bosib ar y teledu (eitem newyddion)* | | Cyllid / Tim Rheoli Perfformiad a Busnes | |
| E | 07.11.17 – 29.12.17 | Ymgyrch hyrwyddo'r arbedion arfaethedig ar y we gydag holiadur pwrpasol wedi ei lunio i dderbyn sylwadau trigolion yr Ynys. Y defnydd ehangach o FB a Twitter yn hanfodol bwysig yma bellach yn ogsytal a cyfweliad radio i'r Arweinydd ar MonFM. | Tim Rheoli Perfformiad a Busnes | Cyllid / Lleisiau'n Lleol | Staff |
| F | 07.11.17 – 31.12.17 | Defnydd o banel dinasyddion a'r grwpiau cymunedol sydd wedi'i ffurfio a fforymau priodol megis Cyngor Ieuenctid ac Ysgolion i roi adborth ar feysydd sydd ag effaith uniongyrchol ar unigolion y fforymau hynny. ***(i'w gadarnhau)*** | Rheolwr Cynllunio Busnes a Pherfformiad | Medrwn Mon<br>Tim y Wasg | PW Cynorthwyol |

Bydd y cynllun uchod yn ein galluogi fel Swyddogion i goladu a chasglu'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn ffurfio adroddiad pwrpasol i gynyddu'r ymwybyddiaeth o safbwyntiau gwahanol unigolion a mudiadau i'r cynigion arfaethedig i bwrpas adrodd ar y rhain (i) mewn sesiwn briffio cyn ddiwedd Ionawr a (ii) yng nghyfarfod Sgrwtini Corfforaethol ddechrau mis Chwefror 2018.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **31 Hydref, 2017** |
| **Pwnc:** | **Panel Sgriwtini Cyllid** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Diweddariad cynnydd ar waith y Panel Cyllid Sgriwtini** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng John Griffith** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones** |
| **Awdur yr Adroddiad:<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini<br>01248 752578<br>AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau lleol:** | **Ddim yn berthnasol** |

**1 – Argymhelliad/ion**

**A1** Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol nodi:

- Y cynnydd a wnaed hyd yma gyda gwaith y Panel Sgriwtini Cyllid
- Bod y prosesau yng nghyswllt monitro'r gyllideb ar gyfer 2017/18 a gosod y gyllideb ar gyfer 2018/19 i weld ar y trywydd iawn hyd yn hyn

**A2** Uchafu'r materion canlynol i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'w hystyried:

- Mynegi pryder ynglŷn â'r gorwariant yn y gwasanaethau plant a'r gwasanaeth dysgu. Hefyd, nodi fel y cam cyntaf, fod y Panel wedi gwahodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Pennaeth Dysgu i roi eglurhad ar y sefyllfa ariannol yn y ddau wasanaeth a'r mesurau lliniaru y cynigir eu rhoi mewn lle i reoli'r gorwariant.
- Argymell i'r Pwyllgor Gwaith fod yr egwyddorion a'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r Cynllun Ariannol Tymor Canol arfaethedig yn gadarn ac yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol eraill**

Cyswllt uniongyrchol rhwng Cynllun y Cyngor / blaenoriaethau trawsnewid a'r Cynllun Ariannol Tymor Canol. Wrth i'r Panel ystyried y cynigion cyllideb cychwynnol ar gyfer y flwyddyn nesaf bydd hefyd yn ystyried sut maent yn galluogi'r Pwyllgor Gwaith i gyflawni yn erbyn Cynllun y Cyngor a'r rhaglen drawsnewid yn ogystal ag unrhyw risgiau penodol

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**I gynorthwyo Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 – Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

Ar gais y Panel:

1. Beth ddylai canran y cynnydd yn y Dreth Gyngor fod ar gyfer 2018/19? **[AP 17]**
2. A oes gan y Pwyllgor unrhyw farn ar flaenoriaeth y ffrydiau gwaith yn rhaglen waith y Panel?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**CEFNDIR**

1.1 Bydd yr aelodau'n ymwybodol y rhoddwyd ystyriaeth yng nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol[1] i'r angen i ddatblygu gwaith craffu drwy 3 o baneli sgriwtini, sef:

- **Panel Sgriwtini Cyllid**
- Panel Sgriwtini Adolygu Ysgolion
- Panel Gwella Gwasanaethau Plant

Mae'r 3 phanel ar waith ac maent yn cyfarfod o leiaf unwaith y mis ar hyn o bryd. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cynnydd a wnaed hyd yma gyda'r Panel Sgriwtini Cyllid.

2.2 **Trefniadau Llywodraethu'r Panel**

Mae'r Panel wedi'i sefydlu fel panel ac is-grŵp parhaol o'r Pwyllgor hwn. Y bwriad yw ceisio parhau i gynnal cyfarfodydd misol o'r Panel, yn unol â'r amserlen ar gyfer monitro'r gyllideb gan y Pwyllgor Gwaith a hefyd proses yr Awdurdod o osod y gyllideb. Mae proses yn ei lle nawr ar gyfer adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor hwn. Bydd y Cynghorwyr Dafydd Roberts a Robin Wyn Williams, fel cynrychiolwyr Pwyllgorau Sgriwtini ar y Panel, yn cyflwyno adroddiadau cynnydd ar waith y Panel yn eu tro.

**2. FFOCWS GWAITH Y PANEL SGRIWTINI CYLLID**

2.1 Mae'r Panel Sgriwtini Cyllid wedi cyfarfod ar dri achlysur erbyn hyn, sef – 17 Awst, 29 Medi a 25 Hydref, 2017. Ynghlwm mae'r matrics penderfyniadau ar gyfer dau gyfarfod cyntaf y Panel (**ATODIAD 1**) a bydd diweddariad llafar yn cael ei gyflwyno o gyfarfod diwethaf y Panel, yn y Pwyllgor.

[1] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gyfarfu ar 10 Ebrill, 2017 a 26 Mehefin, 2017

Ynghlwm hefyd (**ATODIAD 2**) mae copi o raglen waith y Panel.

2.2 Hyd yma, mae'r Panel wedi canolbwyntio ar y materion canlynol:

- **Materion llywodraethu** – rhoi trefniadau llywodraethu clir (gan gynnwys cylch gorchwyl) mewn lle, a rhaglen waith fel sail i waith y Panel dros y misoedd i ddod

- Trosolwg o gyllid Llywodraeth Leol

- Rhoi ystyriaeth fanwl i **Thema 1 – Monitro'r Gyllideb** – safbwynt y Panel o ran ei swyddogaeth yw y dylai ganolbwyntio ar graffu ymateb y Pwyllgor Gwaith i drefniadau monitro'r gyllideb (yn hytrach na sgriwtini cyn penderfyniad ar drefniadau monitro'r gyllideb). Disgwyliwyd y byddai'r ymagwedd hon yn cefnogi'r Pwyllgor Gwaith i wneud gwell penderfyniadau
  Mae'r Panel wedi craffu ymateb y Pwyllgor Gwaith i adroddiad Ch1 ar berfformiad y gyllideb refeniw yn ei gyfarfod ar 29/09/17. Roedd yr Aelod Portffolio Adnoddau yn bresennol ar gyfer y drafodaeth hon. Yn sgil ei drafodaethau, cytunodd y Panel ar y camau gweithredu a ganlyn:
  i. Mynegi pryder ynglŷn â'r gorwariant yn y gwasanaethau plant a'r gwasanaeth dysgu **[PG 20]**
  ii. Fel cam cyntaf, gwahodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Pennaeth Dysgu i roi eglurhad ar y sefyllfa ariannol (y gwasanaethau plant a'r gwasanaeth dysgu) a'r mesurau lliniaru y cynigir eu rhoi ar waith i reoli'r gorwariant. Dylai'r wybodaeth hefyd gynnwys sut y gwariwyd unrhyw gyllid 'buddsoddi i arbed'
  iii. Gwahodd y Pennaeth Dysgu i ystyried y priodoldeb o seilio'r gwasanaeth cludiant ysgol ar ddalgylchoedd yr ysgolion uwchradd

- Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i **Thema 2 – Y Cynllun Ariannol Tymor Canol**. Fe wnaeth y Panel edrych ar yr egwyddorion a'r tybiaethau sy'n sail i'r cynllun ariannol 3 blynedd arfaethedig.
- Yn y cyfarfod diwethaf, rhoddodd y Panel ystyriaeth i **Thema 3 – Y broses o osod y gyllideb flynyddol** ac roedd hynny'n cynnwys edrych yn fanwl ar gynigion cychwynnol y gyllideb. Bydd adroddiad llafar ar y drafodaeth yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini.

**3. MATERION I'W HUCHAFU I'W HYSTYRIED GAN Y RHIANT BWYLLGOR**

Dylid uwchgyfeirio'r materion canlynol er mwyn i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol eu hystyried:

3.1 Y gorwariant cyfredol a phwysau cyllidebol yn y gwasanaethau plant a'r gwasanaeth dysgu. Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ddod i farn ynghylch pa mor gadarn fu camau gweithredu'r Panel hyd yma.
3.2 Dylai unrhyw gynnydd canrannol yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2018/19 gael ei drafod wrth i'r Pwyllgor ystyried cynigion cychwynnol y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf.

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

| 7 – Goblygiadau Ariannol |
|---|
| Mae'r adroddiad hwn yn trafod yr elfennau canlynol o waith y Panel Sgriwtini Cyllid:<br>i. Monitro perfformiad y gyllideb refeniw yn 2017/18<br>ii. Y cynigion cychwynnol fel rhan o'r broses o osod y gyllideb ar gyfer 2018/19<br>iii. Y Cynllun Ariannol Tymor Canol (sy'n sail i egwyddorion a thybiaethau) |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| 1. Matrics penderfyniadau ar gyfer cyfarfodydd canlynol y Panel Sgriwtini Cyllid:<br>• 17 Awst, 2017<br>• 29 Medi, 2017<br>Bydd adroddiad llafar yn cael ei gyflwyno o'r cyfarfod ar 25 Hydref, i'r pwyllgor]<br><br>2. Rhaglen waith y Panel Sgriwtini Cyllid |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7HF |

**Y Cynghorwyr Dafydd Roberts a Robin Wyn Williams**
**Aelodau Sgriwtini ar gyfer y Panel Sgriwtini Cyllid**
**Dyddiad: 18/10/17**

# PANEL SGRIWTINI CYLLID, 17/08/17

**Presennol:** Cyng Aled Morris Jones; Dafydd Roberts; Dylan Wyn Rees; Robin Wyn Williams; Marc Jones; Bethan Hughes-Owen; Anwen Davies.

| Eitem | Pwyntiau Allweddol | Pwynt Gweithredu | Pwy/Pryd i Weithredu? | Statws |
|---|---|---|---|---|
| 1. Cylch Gorchwyl | • **Craffu Cyllid** – darn allweddol o rôl a chyfraniad Sgriwtini oddi mewn i drefniadau llywodraethiant ehangach y Cyngor. Tebygol o fod yn rhan sylweddol o'r adolygiad gan Swyddfa Archwilio Cymru o'n trefniadau Sgriwtini (amserlen y gwaith maes eto i'w chadarnhau gan SAC)<br>• **Trefniadau Llywodraethiant a Chylch Gorchwyl** – papur sgopïo gerbron y Panel heddiw yn sail i ddatblygu'r cylch gorchwyl terfynol<br>• Amcan clir → sicrhau datblygiad aelodau'r Panel yn arbenigwyr pwnc sy'n arwain trafodaethau cyllidol gyda'u cyd Aelodau yn y rhiant bwyllgorau, sesiynau briffio Aelodau ac ati | **PG1** Crynhoi gwaith y Panel ac adrodd bob ¼ i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Trafodaeth yn y rhiant bwyllgor ar sail eithriad yn unig | Pennaeth Adnoddau ar y cyd efo'r Rheolwr Sgriwtini [paratoi dogfennau] Cyng Dafydd Roberts / Robin Wyn Williams [adrodd yn ôl] [Parhaus] | |
| | | **PG2** Cynnal cyfarfodydd misol o'r Panel | Rheolwr Sgriwtini [Parhaus] | |
| | | **PG3** Paratoi cylch gorchwyl terfynol y Panel, i'w gymeradwyo yn y cyfarfod nesaf | Rheolwr Sgriwtini [29/09/17] | |
| 2. Gosod y Cyd-destun | • Gwaith cyllidol y Cyngor yn dueddol o ddigwydd mewn cylch blwyddyn Ebrill → Mawrth. Rhai eithriadau ee Cynllun Ariannol Tymor Canol (MTFP) sy'n gynllun 3 blynedd. Proses sefydlu'r gyllideb yn cychwyn mis Mehefin bob blwyddyn | **PG4** Cadarnhau'r angen i graffu'r gyrrwyr / egwyddorion a rhagdybiaethau sy'n sail i'r Cynllun Ariannol Tymor Canol, fel rhan o raglen waith y Panel | Pennaeth Adnoddau/ Rheolwr Sgriwtini [29/09/17] | |

| Eitem | Pwyntiau Allweddol | Pwynt Gweithredu | Pwy/Pryd i Weithredu? | Statws |
|---|---|---|---|---|
| | • Angen ystyried y priodoldeb o gynnal ymarferiad ymgynghori ar y Cynllun Rhyddhad Treth Busnes<br>• Byddai craffu'r monitro chwarterol o gyllidebau refeniw a chyfalaf yn rhan allweddol o waith y Panel – naill ai drwy graffu mesurau lliniaru'r Gwasanaethau cyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith neu ar ddiwedd y broses drwy graffu ymateb y Pwyllgor Gwaith i reolaeth y gyllideb (er mwyn cymhorthi'r PG i wneud penderfyniadau gwell)<br>• Sicrhau elfen o hyfforddiant i aelodau'r Panel yn bwysig i'w cefnogi i chwarae rôl allweddol wrth graffu materion cyllidol<br>• Rôl a chyfraniad y Panel yn rhan allweddol o drefniadau llywodraethiant y Cyngor. Angen canolbwyntio ar graffu effaith y penderfyniadau ar y gyllideb (nid cywirdeb y cyllidebau eu hunain) a hefyd craffu penderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith. Rôl glir gan y Pwyllgor Archwilio i reoli'r trysorlys, sicrhau cywirdeb y cyfrifon a rheolaeth risgiau | **PG5** Ystyried y priodoldeb o gynnal ymarferiad ymgynghori ar y Cynllun Rhyddhad Treth Busnes | Panel | |
| | | **PG6** Yn y lle cyntaf, y Panel i graffu ymateb y Pwyllgor Gwaith i reolaeth y gyllideb. Adolygiad ar ol y ¼ cyntaf | Rheolwr Sgriwtini | |
| | | **PG7** Fel cam cyntaf, paratoi siart llif ar y broses o sefydlu'r gyllideb flynyddol gan grynhoi'r cerrig milltir allweddol | Rheolwr Sgriwtini ar y cyd efo'r Pennaeth Adnoddau | |
| | | **PG8** Angen trafodaeth bellach ynglŷn â'r priodoldeb o gynnwys yr HRA (Housing Revenue Account) yn sgôp gwaith y Panel | Panel | |

| Eitem | Pwyntiau Allweddol | Pwynt Gweithredu | Pwy/Pryd i Weithredu? | Statws |
|---|---|---|---|---|
| 3. Thema 1: Monitro Cyllidebau | • Trafodaeth gyffredinol ar fonitro cyllidebau refeniw a chyfalaf gan ddefnyddio adroddiad monitro CH4 (2016/17) fel esiampl | **PG9** Estyn gwahoddiad i'r Deilydd Portffolio Adnoddau pan fydd y Panel yn craffu ymateb y Pwyllgor Gwaith i'r monitro cyllidol chwarterol | Rheolwr Sgriwtini [chwarterol, parhaus] | |
| 4. Rhaglen Waith y Panel: Awst – Rhagfyr, 2017 | • Allweddol sicrhau rhaglen waith gadarn i gefnogi cyfraniad y Panel at graffu cyllidol ystyrlon, sy'n ychwanegu gwerth | **PG10** Rhoi rhaglen waith mewn lle ar gyfer y Panel gan gychwyn efo'r cyfnod Awst, 2017 → Mawrth, 2018 | Rheolwr Sgriwtini | |
| 5. Dyddiad Cyfarfod Nesaf | • Rhaglennu dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd misol y Panel, Medi, 2017 → Mawrth, 2018, yn y lle cyntaf<br>• Y Panel i ganolbwyntio ar thema unigol / rhannau unigol o'r cylch cyllidol, fesul cyfarfod | **PG11** Cyfarfod nesaf y Panel i'w gynnal 29 Medi, 2017 @ 9.30yb | Rheolwr Sgriwtini [31/08/17] | |
| | | **PG12** Rhaglennu'r themau cyllidol i'w hystyried fesul cyfarfod o'r Panel | Pennaeth Adnoddau / Rheolwr Sgriwtini | |
| | | **PG13** Cyfarfod nesaf y Panel i ganolbwyntio ar:<br>a. Ymateb y Pwyllgor Gwaith i adroddiad monitro CH1 (2017/18)<br>b. Egwyddorion / rhagdybiaethau'r Cynllun Cyllidol Tymor Canol (MTFP) [MTFP gerbron y Pwyllgor Gwaith ar 18/09/17] | Rheolwr Sgriwtini | |

| STATWS GWEITHREDU | | | |
|---|---|---|---|
| **Dim Camau Gweithredu i'w rhoi ar waith** | **Ar darged i roi'r Pwynt(iau) Gweithredu ar waith erbyn y cyfarfod nesaf** | **Rhagwelir oedi o ran cwblhau'r Pwynt(iau) Gweithredu erbyn y cyfarfod nesaf, ond byddant yn cael eu rhoi ar waith.** | **Ar ei hôl hi a risg sylweddol o beidio â gweithredu** |
| | Gwyrdd (G) | Ambr (A) | Coch (C) |

# PANEL SGRIWTINI CYLLID, 29/09/17

**Presennol:** Cyng Aled Morris Jones; Dafydd Roberts; Dylan Wyn Rees; Robin Wyn Williams; Marc Jones; Bethan Hughes-Owen; Anwen Davies
Cyng John Griffith, Deilydd Portffolio Adnoddau (ar gyfer y drafodaeth ar eitem 3: monitro cyllideb 2017/18: CH1)

| Eitem | Pwyntiau Allweddol | Pwynt Gweithredu | Pwy/Pryd i Weithredu? | Statws |
|---|---|---|---|---|
| 1. Cofnod y Cyfarfod Diwethaf | • Aelodau'r Panel yn cadarnhau fod fformat y matrics penderfyniadau'n parhau i fod yn addas i bwrpas ac yn declyn effeithiol i fonitro cynnydd / perfformiad<br>• Fformat y pecyn dogfennau'n heriol i'w defnyddio ar Ipads | **PG 14** Parhau i dreialu cyflwyno papurau'r Panel ar ffurf PDF mewn ffeiliau ar wahân ar gyfer y ddwy iaith | Rheolwr Sgriwtini | |
| **Sesiwn hyffordiant a chodi ymwybyddiaeth**<br>**[Cynllun Cyllidol Tymor Canol – egwyddorion a rhagdybiaeth yn sail i'r Cynllun]** | | | | |
| 2. Cynllun Cyllidol Tymor Canol [Thema 2] | Cyflwyniad manwl i'r daenlen ariannol yn sail i gynllun cyllidol tymor canol y Cyngor. Fe fabwysiadwyd y Cynllun Cyllidol a'r rhagdybiaethau'n sail iddo gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 18/09/17<br><br>Cynllun ariannol 3 blynedd i'r Cyngor am y cyfnod 2017/18 → 2019/20 (rhaglen dreigl)<br>Nifer o ragdybiaethau wedi'u gwneud yn y meysydd canlynol:<br>• Ychwanegiadau blynyddol ar gyfer Yswiriant Cenedlaethol; cyflogau; pensiynau; chwyddiant; llog<br>• Graddfa trosiant y gweithlu<br>• Costau ein prif gytundebau gwasanaeth<br>• Costau ynni | **PG 15** Rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fod yna ragdybiaethau cadarn yn sail i'r Cynllun Cyllidol Tymor Canol. Nodwyd bod y rhagdybiaethau'n seiliedig ar yr wybodaeth orau ar gael | Aelodau'r Panel â chyfrifoldeb am adrodd yn ôl ar gynnydd gwaith y Panel [31/10/17] | |
| | | **PG 16** Ystyried y priodoldeb o gynnig opsiwn i drethdalwyr talu'r Dreth Gyngor dros gyfnod o 12 mis (yn hytrach na 10 mis), drwy ddebyd uniongyrchol a hefyd rhoi trefniadau mewn lle i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd | Pennaeth Adnoddau | |

| Eitem | Pwyntiau Allweddol | Pwynt Gweithredu | Pwy/Pryd i Weithredu? | Statws |
|---|---|---|---|---|
| | • Cyfanswm y gronfa wrth gefn [costau diswyddo gorfodol]<br>• Pwysau ariannol ee Gwasanaethau Plant, Canolfan Addysg y Bont, Contract Torri Gwair<br><br>Rhagwelwyd bwlch cyllidol o oddeutu £8.5m dros gyfnod o 3 blynedd (£4m yn 2018/19; £2.5m yn 2019/20 a £2m yn 2020/21) ym 2018/19 a rhagdybiaeth o 4% o gynnydd yn lefel y Dreth Gyngor. Y Dreth Gyngor yn cynrychioli 26% o incwm y Cyngor a'r Cynllun Cyllidol yn seiliedig ar ragdybiaeth o gynnydd blynyddol o 4% yn lefel y Dreth | **PG 17** Sicrhau trafodaeth yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar ganran y cynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2018/19, fel rhan o ystyriaeth Aelodau Craffu o gynigion cychwynnol cyllideb arfaethedig y flwyddyn i ddod | Aelodau'r Panel â chyfrifoldeb am adrodd yn ôl ar gynnydd gwaith y Panel [31/10/17] | |
| 3. Cylch Gorchwyl | Allweddol sicrhau trefniadau llywodraethiant cadarn yn sail i waith y Panel | **PG 18** Mabwysiadau'r cylch gorchwyl fel fe'i gyflwynwyd | Rheolwr Sgriwtini | |
| 4. Monitro'r Gyllideb [CH1, 2017/18] [Thema 1]<br><br>Ar gais y Panel, 'roedd y Deilydd Portffolio Adnoddau'n bresennol ar gyfer y drafodaeth ar yr eitem hon | <u>THEMA 1: MONITRO'R GYLLIDEB</u><br>Cymryd golwg manwl ar ymateb y Pwyllgor Gwaith i adroddiad monitro'r gyllideb → CH1 (2017/18)<br><br>**Cyd-destun**<br>Nodwyd penderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith (18/09/17):<br>"(Penderfynwyd) –<br>• Nodi'r sefyllfa a amlinellwyd yng nghyswllt y perfformiad ariannol hyd yma<br>• Cytuno i adolygu'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig er mwyn nodi'r rhai nad ydynt yn flaenoriaeth mwyach ac y gellir eu defnyddio i helpu i gyllido'r gorwariant a ragamcenir<br>• Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni buddsoddi i arbed<br>• Nodi'r sefyllfa o ran arbedion effeithlonrwydd 2017/18 | **PG 19** Nodi ymateb y Pwyllgor Gwaith i adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer CH1 | d/b | |
| | | **PG 20** Mynegi pryder ynglŷn â'r sefyllfa o orwariant yn y gwasanaethau plant a dysgu | | |
| | | **PG 21** Fel cam cyntaf, gwahodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Pennaeth Dysgu i gynnig eglurhad o'r sefyllfa ariannol (plant a dysgu) a'r mesurau lliniaru y bwriedwyd eu rhoi mewn lle i reoli'r gorwariant. Yr wybodaeth hefyd i gynnwys sut y | Prif Weithredwr Cynorthwyol / Pennaeth Dysgu [25/10/17] | |

| Eitem | Pwyntiau Allweddol | Pwynt Gweithredu | Pwy/Pryd i Weithredu? | Statws |
|---|---|---|---|---|
| | • Nodi'r modd y caiff costau staff asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2017/18<br>• Dirprwyo rhyddhau'r Premiwm Dreth Gyngor i'r Swyddog Adran 151 yn seiliedig ar y cyfrifoldebau bod y Premiymau wedi eu talu".<br><br>**Mewnbwn y Deilydd Portffolio / Pennaeth Adnoddau**<br>Nodwyd:<br>• Byddai'r Deilyddion Portffolio unigol yn arwain trafodaeth efo'r Penaethiaid ble oedd sefyllfa o orwariant efo'r amcan o roi mesurau lliniaru mewn lle<br>• Ni ragwelwyd y byddai'r sefyllfa'n gwaethygu – 'roedd hwn yn asesiad ar sail 1 chwarter gyda nifer o ffactorau'n gallu newid lefelau gwariant yn ystod y 9 mis oedd yn weddill o'r flwyddyn ariannol gyfredol<br>• Gorwariant yn y gwasanaethau plant, dysgu (lleoliadau all-sirol, trafnidiaeth). Pwysau ar gyllidebau oedolion, priffyrdd ac hamdden<br>• Prif risgiau yn y gwasanaethau cymdeithasol (plant ac oedolion) a dysgu<br><br>**Cwestiynau gan aelodau'r Panel:**<br>i. Oedd yna batrwn o orwariant dros nifer o flynyddoedd yng nghyllidebau gwasanaethau rheng flaen (dadansoddiad ynghlwm i'r matrics penderfyniadau0<br>ii. Pa wasanaethau oedd yn tanwario<br>iii. Pa gyllidebau oedd yn peri'r consyrn mwyaf i'r Cyngor | gwnaed defnydd o unrhyw arian gwario i arbed | | |
| | | **PG 22** Gwahodd y Gwasanaeth Dysgu i ystyried y priodoldeb o osod y gwasanaeth trafnidiaeth ysgol ar sail dalgychoedd ysgolion uwchradd | Pennaeth Dysgu | |

Tudalen 42

| Eitem | Pwyntiau Allweddol | Pwynt Gweithredu | Pwy/Pryd i Weithredu? | Statws |
|---|---|---|---|---|
| | iv. A oedd yna awydd i greu asiantaeth gofal maeth ar y cyd ar draws awdurdodau'r Gogledd fel ffordd o reoli gorwariant/ pwysau ariannol yn y gwasanaethau plant<br>v. Pa ffactorau oedd yn achosi niferoedd y plant dan ofal yr awdurdod i barhau i gynyddu? Beth oedd y rhagolygon?<br>vi. Beth oedd y strategaeth i gynyddu'n rhieni maeth?<br>vii. Oedd yn briodol ni ail ystyried darparu gwasanaeth preswyl arbenigol i blant (i gymryd lle Queen's Park), o bosib ar y cyd efo'r 3ydd Sector<br>viii. Pa sicrwydd oedd yna y byddai mesurau adfer mewn lle i reoli'r gorwariant a'r pwysau ariannol cynyddol – yn enwedig yn y gwasanaethau plant a dysgu<br>ix. Beth oedd pwrpas y gwarged yn y Cyfrif Refeniw Tai<br>x. Sut mae modd defnyddio'r Cyfrif Refeniw Tai i gyllido'r cynllun Tai Gofal Ychwanegol yn Seiriol<br>xi. A oedd posibl dad-wneud y clustnodi oedd o amgylch y Cyfrif Refeniw Tai<br><br>Wrth linio argymhelliad, rhoddodd y Panel ystyriaeth i 3 opsiwn:<br>a. Oedi rhag weithredu tan y byddai gwybodaeth perfformiad CH2 ar gael<br>b. Uchafu'r mater yn syth i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gan argymell adolygiad ar reolaeth cyllidebau plant a dysgu | | | |

| Eitem | Pwyntiau Allweddol | Pwynt Gweithredu | Pwy/Pryd i Weithredu? | Statws |
|---|---|---|---|---|
| | c. Cyfeirio’r mater er sylw’r Panel Rhiantu Corfforaethol, gan ofyn i’r Panel ymyrryd a chymryd camau i reoli’r gyllideb | | | |
| 5. Rhaglen Waith y Panel: Awst – Rhagfyr, 2017 | • Allweddol sicrhau rhaglen waith gadarn i gefnogi cyfraniad y Panel at graffu cyllidol ystyrlon, sy’n ychwanegu gwerth<br>• Sicrhau mewnbwn arbenigol, allanol i’n cymhorthi i werthuso a thystioli effaith a gwerth ychwanegol y Panel. Deilliannau’r gwerthusiad i fod ar gael i ddatblygu arferion da ar lefel genedlaethol | **PG 23** Rhoi rhaglen waith mewn lle ar gyfer y Panel gan gychwyn efo’r cyfnod Awst, 2017 → Mawrth, 2018 | Rheolwr Sgriwtini | |
| | | **PG 24** Gwahodd CIPFA Cymru i gyfarfod o’r Panel, efo’r amcan o gytuno mewnbwn i’n gwerthusiad o effaith gwaith y Panel | Rheolwr Sgriwtini | |
| 6. Dyddiad Cyfarfod Nesaf | | **PG 25** Cyfarfod nesaf y Panel i’w gynnal ar 25 Hydref, 2017 @ 10.00yb | Rheolwr Sgriwtini | |
| | | **PG 26** Cyfarfod nesaf y Panel i ganolbwyntio ar gynigion cychwynnol cyllideb 2018/19 | Rheolwr Sgriwtini efo’r Pennaeth Adnoddau | |

| STATWS GWEITHREDU | | | |
|---|---|---|---|
| **Dim Camau Gweithredu i'w rhoi ar waith** | **Ar darged i roi'r Pwynt(iau) Gweithredu ar waith erbyn y cyfarfod nesaf** | **Rhagwelir oedi o ran cwblhau'r Pwynt(iau) Gweithredu erbyn y cyfarfod nesaf, ond byddant yn cael eu rhoi ar waith.** | **Ar ei hôl hi a risg sylweddol o beidio â gweithredu** |
| | **Gwyrdd** | **Ambr (A)** | **Coch (C)** |

# PANEL SGRIWTINI CYLLID – RHAGLEN WAITH /
# *FINANCE SCRUTINY PANEL – WORK PROGRAMME*

| **CYFARFOD / *MEETING*** | **DYDDIAD / *DATE*** | **PWNC / *SUBJECT*** | **ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL / *REPORT TO CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE*** | **ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / *REPORT TO EXECUTIVE*** |
|---|---|---|---|---|
| **AWST → RHAGFYR, 2017**<br>***AUGUST → DECEMBER, 2017*** | | | | |
| **1** | **AWST**<br>***AUGUST***<br>17/08/17<br>[2.00 – 4.00] | Sesiwn ddatblygu/codi ymwybyddiaeth → Cyllid Llywodraeth Leol<br>*Development session/awareness raising → Local Government Finance* | | |
| | | CG, Cynllun Prosiect a gosod y cyd-destun / *TOR, Project Plan & setting the scene* | | |
| | | Thema 1: **Monitro'r Gyllideb** (CH 4: 2016/17) / ***Budget Monitoring*** *(Qtr 4: 2016/17)* | | |
| | | Rhaglen waith ac anghenion datblygu / *Work programme and development needs* | | |
| **2** | **MEDI**<br>***SEPTEMBER***<br>29/09/17<br>[9.30 – 12.30] | Sesiwn ddatblygu/codi ymwybyddiaeth → Egwyddorion/rhagdybiaethau'n sail i'r Cynllun Cyllidol Tymor Canol<br>*Development session/awareness raising → Theme 2: Principles/assumptions underpinning the Medium Term Financial Plan* | | |

| CYFARFOD / *MEETING* | DYDDIAD / *DATE* | PWNC / *SUBJECT* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL / *REPORT TO CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / *REPORT TO EXECUTIVE* |
|---|---|---|---|---|
| | | Cylch Gorchwyl terfynol / *Final Terms of Reference* | | |
| | | Thema 1: **Monitro'r Gyllideb** (CH 1: 2017/18) – cymryd golwg manwl ar ymateb y Pwyllgor Gwaith / ***Budget Monitoring*** *(QTR 1: 2017/18) – a closer look at the response of the Executive* | | |
| | | Thema 2: **Cynllun Cyllidol Tymor Canol** – cymryd golwg manwl; herio'r rhagdybiaethau; cyswllt efo arbedion arfaethedig 2018/19 / *Theme 2:* ***Medium Term Financial Plan*** *– a closer look; scrutinise assumptions; link to 2018/19 proposed efficiencies* | | |
| | | Rhaglen waith ac anghenion datblygu / *Work programme and development needs* | | |
| **3** | **HYDREF /** ***OCTOBER*** 25/10/17 [10.00 – 12.30] | Sesiwn ddatblygu/codi ymwybyddiaeth → Proses o sefydlu'r gyllideb flynyddol *Development session/awareness raising → Annual budget setting process* | | |

Tudalen 46

| **CYFARFOD *I MEETING*** | **DYDDIAD / *DATE*** | **PWNC / *SUBJECT*** | **ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL / *REPORT TO CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE*** | **ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / *REPORT TO EXECUTIVE*** |
|---|---|---|---|---|
| | | Thema 3: **Proses sefydlu cyllideb flynyddol** – cymryd golwg manwl; herio'r cynigion cychwynnol: craffu unrhyw argymhellion mewn perthynas â chynnydd yn y Dreth Gyngor<br>*Theme 3: **Annual budget setting process** – a closer look; scrutinise initial proposals; scrutinise any proposals relating to an increase in the Council Tax* | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol / *Corporate Scrutiny Committee, 31/10/17* | Pwyllgor Gwaith / *Executive, 06*/11/17 |
| | | Rhaglen waith ac anghenion datblygu (adolygiad) / *Work programme and development needs (review)* | | |
| **4** | **RHAGFYR / DECEMBER** 01/12/17 [9.30 – 12.00] | Sesiwn ddatblygu/codi ymwybyddiaeth → Egwyddorion/rhagdybiaethau'n sail i'r Polisi Rhyddhad Treth Busnes<br>*Development session/awareness raising → Principles/assumptions underpinning the Business Tax Relief Policy* | | |
| | | Thema 1: **Monitro'r Gyllideb** (CH 2: 2017/18) – cymryd golwg manwl ar ymateb y Pwyllgor Gwaith / ***Budget Monitoring** (QTR 2: 2017/18) – a closer look at the response of the Executive* | | |

| CYFARFOD / *MEETING* | DYDDIAD / *DATE* | PWNC / *SUBJECT* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL / *REPORT TO CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / *REPORT TO EXECUTIVE* |
|---|---|---|---|---|
| | | Thema 4: **Polisi Rhyddhad Treth Busnes** - cymryd golwg manwl; craffu'r egwyddorion a rhagdybiaethau<br>*Theme 4: **Business Tax Relief Policy** – take a closer look; scrutinise the underpinning principles and assumptions* | | |
| | | Rhaglen waith ac anghenion datblygu (adolygiad) / *Work programme and development needs (review)* | | |
| **IONAWR → MAI, 2018**<br>***JANUARY → MAY, 2018*** | | | | |
| **5.** | **IONAWR / JANUARY**<br>04/01/18<br>[3.00 – 5.00*]<br><br>(Ar godiad y Sesiwn Briffio Aelodau) | Sesiwn ddatblygu/codi ymwybyddiaeth → Egwyddorion a phrosesau lleol yn sail i reolaeth dyledion<br>*Development session/awareness raising → Principles & local processes underpinning debt management* | | |
| | | Thema 3: **Proses sefydlu cyllideb flynyddol** – cymryd golwg manwl yn sgîl sylwadau dderbyniwyd yn ystod yr Ymgynghoriad Cyhoeddus /<br>*Theme 3: **Annual budget setting process** – a closer look in light of comments received during the recent Public Consultation* | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol / *Corporate Scrutiny Committee, 05/02/18* | Pwyllgor Gwaith / *Executive, 18/02/18* |

Tudalen 48

| CYFARFOD / *MEETING* | DYDDIAD / *DATE* | PWNC / *SUBJECT* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL / *REPORT TO CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / *REPORT TO EXECUTIVE* |
|---|---|---|---|---|
| | | Thema 5: **Rheoli dyledion** – cymryd golwg manwl ar ein prosesau rheoli dyledion; perfformiad lleol yn erbyn awdurdodau eraill (2016/17) / *Theme 5: **Debt management** a closer look at our local debt management processes; local performance against other authorities (2016/17)* | | |
| | | Rhaglen waith ac anghenion datblygu (adolygiad) / *Work programme and development needs (review)* | | |
| **8.** | **CHWEFROR / FEBRUARY (diwedd mis neu ddechrau Mawrth)** | Sesiwn ddatblygu/codi ymwybyddiaeth → Egwyddorion a rhagdybiaethau'n sail i'r cynllun busnes y Cyfrif Refeniw Tai<br>*Development session/awareness raising → Principles and assumptions underpinning the Housing Revenue Account* | | |
| | | Thema 1: **Monitro'r Gyllideb** (CH 3: 2017/18) – cymryd golwg manwl ar ymateb y Pwyllgor Gwaith / ***Budget Monitoring** (QTR 3: 2017/18) – a closer look at the response of the Executive* | | |
| | | Thema 6: **Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai** – cymryd golwg manwl; herio'r rhagdybiaethau; cyswllt efo cyllideb arfaethedig 2018/19 / *Theme 2: **Housing Revenue*** | | |

| CYFARFOD / *MEETING* | DYDDIAD / *DATE* | PWNC / *SUBJECT* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL / *REPORT TO CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE* | ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / *REPORT TO EXECUTIVE* |
|---|---|---|---|---|
| | | ***Account Business Plan** – a closer look; scrutinise assumptions; link to 2018/19 proposed budget* | | |
| **9.** | **MAWRTH / MARCH (diwedd mis dechrau Ebrill)** | Sesiwn ddatblygu/codi ymwybyddiaeth → adolygu cynnydd gwaith y panel / gwerthusiad<br><br>*Development session/awareness raising → progress review / evaluation* | | |
| | | Gwerthuso effaith gwaith craffu'r Panel rhwng Awst, 2017 → Chwefror, 2018; cynnig argymhellion i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o ran rhaglen waith y Panel yn ystod 2018/19 /<br><br>*Evaluate the impact of the Panel's scrutiny work between August, 2017 → February, 2018; make proposals to the Corporate Scrutiny Committee on the Panel's work programme for 2018/19* | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol / *Corporate Scrutiny Committee, 09/04/18* | Pwyllgor Gwaith / *Executive, 30/04/18* |
| **28/02/18 → Cyngor Sir yn derbyn cyllideb ddrafft 2018/19, i'w mabwysiadu / *Full Council to receive the 2018/19 draft budget, for adoption*** | | | | |
| **MEHEFIN → JUNE →** | | | | |

Tudalen 50

| **CYFARFOD / *MEETING*** | **DYDDIAD / *DATE*** | **PWNC / *SUBJECT*** | **ADRODDIAD I'R PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL / *REPORT TO CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE*** | **ADRODDIAD I'R PWYLLGOR GWAITH / *REPORT TO EXECUTIVE*** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

**(Teitl yr Adroddiad /Title of report**
**Cyllideb Refeniw Drafft 2018/19 Draft Revenue Budget**

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

Paragraff(au) Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972
Paragraph(s) 12, 13, 14, 15 Schedule 12A Local Government Act 1972

**Y PRAWF – THE TEST**

| Mae yna fudd i'r cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:- | Y budd i'r cyhoedd wrth beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:- |
|---|---|
| Mae yna fudd cryf i'r cyhoedd yn nhryloywder ynglyn â materion cyllidebol a gwario cyhoeddus yn amseroedd o bwysau ariannol.<br><br>There is a strong public interest in transparency about budgetary matters and public spending in times of financial pressure. | Mae'r adroddiad yn cyfeirio at unigolion penodol yn eu swyddi. Mae yna fudd cryf i'r cyhoedd i sicrhau y datgelir gwybodaeth yn adroddiadau mewn ffordd nad yw'n annheg na'n anghydnaws â hawliau unigolion o dan ddeddfwriaeth gwarchod data a phreifatrwydd.<br><br>Mae'r adroddiad yn cyfeirio at faterion cyflogadwyaeth a all godi mewn ymgynghoriadau neu drafodaethau. Mae yna fudd cryf i'r cyhoedd i sicrhau nad amharir ar na ragfernir unrhyw ymgynghoriad neu ymgynghoriad a ystyrir drwy ddatgelu i'r byd eang ar bwynt cynamserol.<br><br>Mae'r adroddiad yn cynnwys cyfeiriadau i wybodaeth ynglyn â materion busnes y Cyngor a all roi'r Cyngor dan anfantais mewn trafodaethau masnachol yn ystod caffael gwasanaethau. Mae yna fudd cryf i'r cyhoedd i sicrhau na ddatgelir gwybodaeth mewn ffordd sy'n niweidiol i fuddiannau ariannol y Cyngor ac, yn y pen draw, y bobl y gwasanaethir.<br><br>Fe ddatgelir y gyllideb maes o law, mae hyn yn gwanhau unrhyw ddadleuon o blaid datgelu'r adroddiad yma ar sail tryloywder. Bydd tryloywder yn cael ei fodloni maes o law ac fe fodloni'r budd cyhoeddus dilys. |

| | |
|---|---|
| | The report makes references to specific individuals in their job-roles. There is a strong public interest in ensuring that information is disclosed in reports in a way that is not unfair and incompatible with individuals' rights under data protection and privacy legislation.<br><br>The report refers to employment matters which could arise in consultations or negotiations. There is a strong public interest in ensuring that consultations or contemplated consultations are not impacted or prejudiced through disclosure to the world at large at an untimely point.<br><br>The report contains references to information about the business affairs of the Council, which could place the Council at a disadvantage in commercial discussions during the procurement of services. There is a strong public interest in ensuring that information is not disclosed in a way that is detrimental to the financial interests of the Council and, ultimately, the people it serves.<br><br>The budget will be disclosed in due course, this weakens any public interest arguments in favour of disclosure of this report on the grounds of transparency; transparency will be satisfied in due course and the public's legitimate interest will be satisfied. |
| **Argymhelliad** - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.<br>**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. | |

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 12, 13, 14, 15 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth  Leol 1972.



Document is Restricted

This page is intentionally left blank